

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Adroddiad i</b>	<b>Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad</b>	<b>29ain Medi, 2011</b>
<b>Pwnc</b>	<b>Cynllun Gwella Corfforaethol 2011 - adolygiad sydd yn edrych yn ôl ar berfformiad 2010/11</b>
<b>Deilydd(ion) Portffolio</b>	<b>Byron Davies</b>
<b>Swyddog(ion) Arweiniol</b>	<b>Huw Jones (2108)</b>
<b>Swyddog Cyswllt</b>	<b>Gethin Morgan (2111)</b>
<b>Natur a rheswm am adrodd</b>	
<b>Mae'n ofyniad Statudol dan Raglen Cymru ar Gyfer Gwella a Mesur Llywodraeth Leol (2009) i'r Cyngor adrodd ar ei berfformiad o ran gweithgareddau'r flwyddyn flaenorol cyn diwedd Hydref bob blwyddyn</b>	

<b>A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw</b>
<p>Fel yr adroddwyd i'r Cyngor Sir ar 11 Mai 2010, roedd angen i'r Cyngor gyhoeddi cynllun a oedd yn edrych ymlaen (Cynllun Gwella) mor fuan â phosib ar ôl 1 Ebrill 2010 yn cynnwys amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn. Cyflwynwyd blaenoriaethau gwella'r Cyngor (y Cynllun Busnes Corfforaethol) i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar 5 Gorffennaf 2010. Yn ychwanegol at hyn, rhaid cyhoeddi'r adolygiad perfformiad blynnyddol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn yn sôn am berfformiad y gorffennol. Mae'r papur hwn yn ymwneud â chynhyrchu'r adolygiad perfformiad (draft) sydd yn edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor am 2010/11 a chaiff ei gyflwyno fel crynodeb byr o'r prif benawdau o fewn y ddogfen adolygu perfformiad ei hun.</p> <p>Rhaid cyflwyno'r Cynllun Gwella i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo cyn diwedd Hydref 2011 ac mae eisoes wedi cael ei raglennu i gael ei adrodd i Fwrdd y Comisiynwyr ar 3ydd o Hydref 2011.</p>

<b>B - Ystyriaethau</b>
Mae'r prif ystyriaethau fel a ganlyn:

## Ffocws a Blaenoriaethau Strategol

Mae'r Cynllun yn edrych ar y cynnydd y mae'r Cyngor wedi ei wneud yn erbyn ei bum blaenoriaeth strategol ond hefyd yn erbyn ei amcanion gwella datganedig fel y'i gwelir yn y prif benawdau isaf:

- Parhau i weithredu'r Cynllun Adfer a meysydd risg allweddol
- Y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy a rheoli cyllidebau gostyngol yn y dyfodol
- Mentrau a meysydd rhaglen allweddol e.e. Ynys Ynni
- Y rhaglen gydweithio a thrawsnewid e.e. Mentrau Partneriaeth Gogledd Cymru
- Ffrydiau gwaith sy'n gysylltiedig â phartneriaethau allweddol eraill

## Adroddiadau Rheoleiddiol 2010/11

Yn ystod 2010/11, cyhoeddwyd yr adroddiadau rheoleiddiol isod sydd yn rhoi gwybodaeth ar y prif faterion y mae angen i'r Cyngor roddi sylw iddynt i sicrhau gwelliant

- Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol - Medi 2010
- Adroddiad Gwella Blynnyddol - Ionawr 2011
- Arolygiad Arbennig: Ail Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol - Mawrth 2011

Mae'r Cynllun yn edrych ar rai o'r prif faterion a nodwyd yn yr adroddiadau hyn ac yn ceisio asesu sut yr aeth y Cyngor i'r afael â'r materion hyn.

## Gwella Llywodraethu Corfforaethol

Roedd Gwella Llywodraethu Corfforaethol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor yn ystod 2010/11 a cheisiodd roddi sylw i'r mater hwn drwy gyfrwng Cynllun Adfer dan y prif benawdau isod:

- Datblygu Aelodau
- Rhaglen Datblygu Cydweithio i Aelodau a Swyddogion
- Cryfhau Arweinyddiaeth ac Ymgysylltiad Cymunedol
- Gwneud y Cyngor yn fwy fel Busnes
- Rheoli Cynaliadwyedd tueddiadau perfformiad
- Gwella Enw Da'r Cyngor
- Cynllun Gweithredu AD

## Adroddiadau Archwilio ac Arolygu

Ynghyd â pharhau i roddi sylw i'r materion a oedd yn codi o'r Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol, gwnaed gwaith rheoleiddiol yn ystod 2010/11 mewn meysydd eraill yn y Cyngor. Ceir crynodebau yn yr amryfal adroddiadau archwilio ac arolygu y cyfeirir atynt yn y Cynllun.

## Dangosyddion Perfformiad

Dan y Fframwaith Mesur Perfformiad a gyflwynwyd yn Ebrill 2005, rhaid i bob Cyngor yng Nghymru gasglu a rhannu data ar gyfer Dangosyddion Strategol Cenedlaethol yn ogystal â Dangosyddion Strategol Craidd dan bob maes gwasanaeth. Mae canlyniadau llawn ar gyfer y dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Dangosyddion Craidd ar gyfer 2010/11 i'w gweld yn yr atodiadau i'r Cynllun. Mae'r rhan hon o'r Cynllun yn edrych ar berfformiad yn erbyn y chwartelau sydd ar y brig, yn y canol ac ar y gwaelod a hefyd yn erbyn perfformiad blwyddyn ar ôl blwyddyn a pherfformiad fel y caiff ei feincnodi yn erbyn Awdurdodau eraill.

O'r wybodaeth a gafwyd, gwelwyd bod 28% o DP y Cyngor yn y chwartel uchaf / 43% yn y chwarter canol a 26% yn y chwartel isaf (heb adrodd ar 3% o ddangosyddion). O'r ffigyrâu hyn, mae'n galonogol nodi mai'r Adran Addysg yw ein perfformiwr cryfaf gyda 40% o'i DP yn y chwartel uchaf tra bod gan y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol 29% yn y chwartel hwnnw ac mae 24% o DP yr Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn yr un amrediad.

Mae'n ofid nodi'r ffaith bod oddeutu 38% o'r holl ddangosyddion o fewn maes gwaith y Cyngor wedi dirywio blwyddyn ar ôl blwyddyn.

O ran yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn arbennig felly'r Gwasanaethau Plant a arolygwyd gan yr AGGCC yn ystod y flwyddyn, mae'n galonogol nodi bod 58% o'i dangosyddion wedi gwella blwyddyn ar ôl blwyddyn gyda 27% yn dirywio a 15% yn aros yr un fath.

Mae'r darlun cyffredinol felly o ran ein dangosyddion perfformiad (DP) yn 2010/11 yn dangos rhywfaint o ddirywiad o ran perfformiad o gymharu â 2009/10.

## Cytundebau Canlyniadau

Y flwyddyn hon, 2010/11, oedd blwyddyn gyntaf rhaglen tair blynedd ar gyfer darparu Cytundebau Canlyniadau a lofnodwyd rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru (LIC). Yn seiliedig ar yr arwyddion o'n gwaith hunanasesu a thrafodaethau cychwynnol rhagarweiniol gyda LIC ar ddiwedd blwyddyn 1, rydym yn credu ein bod yn debygol o gael 75% a 100% o grant (disgwyl am gadarnhad gan LIC ar adeg ysgrifennu). Er ein bod wedi llwyddo i gyflawni'r mwyaf helaeth o'n canlyniadau a'n targedau ar draws y rhan fwyaf o'r cytundebau canlyniadau, mae yna ddiffygion sylweddol mewn lleiafrif sy'n golygu na fyddwn efallai yn cael y nifer gofynnol o bwyntiau ar y raddfa grantiau i gael grant a 00%. Adroddwyd ar hyn i'r Bwrdd Comisiynwyr a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o'r blaen eleni.

Ar adeg ysgrifennu, nid yw'r Cyngor yn gwybod beth fydd canlyniad terfynol asesiad ffurfiol y flwyddyn gyntaf a swm y grant a roddir.

## Perfformiad Ariannol 2010/11

Mae yna gyfeiriad yn y ddogfen o ran sefyllfa a pherfformiad cyffredinol y Cyngor o

safbwyt ariannol ar gyfer 2010/11 ynghyd â chyfeiriad at y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy.

## Cydweithio

Mae'r Cyngor yn ymwneud yn egniol â chefnogi gwaith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Sefydlwyd pedwar bwrdd prosiect yn canolbwytio ar:

- Addysg a Gwasanaethau Cysylltiedig
- Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoleiddiol
- Adnoddau

Mae'r gwaith yn mynd law yn llaw â'r rhaglen drawsnewid a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'r cynllun yn asesu cynnydd yn erbyn y meysydd gwaith hyn yn ystod 2010/11.

## Sicrhau Cydraddoldeb a Chynaliadwyedd

Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i gydraddoldeb o safbwyt darparu gwasanaethau ac yn ei swyddogaeth fel cyflogwr pwysig ac mae adeiladu a chefnogi cymunedau cynaliadwy wedi cael ei nodi fel un o'r pum blaenoriaeth strategol allweddol. Parheir i brif lifo cynaliadwyedd ar draws yr Awdurdod ac mae angen gwneud gwaith pellach i wneud yn sicr bod hyn yn cael ei integreiddio mewn cynlluniau busnes yn y dyfodol.

## Rhoi sylw i'n hamcanion gwella

Mae'r rhan hwn o'r cynllun yn cynnwys asesiad o sut y bu i ni fynd i'r afael â, a chyflawni ein Cynllun Gwella a oedd yn edrych ymlaen (Cynllun Busnes Corfforaethol 2010/11) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2010 a rhydd amlinelliad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion gwella yn ystod 2010/11. Mae'r camau gweithredu hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor eleni ac mae'n ffurio rhan o'r blaenoriaethau gwella yn ein Cynllun Busnes Corfforaethol ar gyfer 2011/12.

## C - Goblygiadau ac Effeithiau

<b>1</b>	<b>Cyllid / Adran 151</b>	Mae yna gyfeiriad penodol i faterion ariannol/perfformiad yn y rhan o'r ddogfen sydd yn ymwneud ag amcanion gwella.
<b>2</b>	<b>Swyddog Cyfreithiol / Monitro</b>	Mae'n ofyniad statudol i gynhyrchu a chyhoeddi ein Cynllun Gwella (adolygiad o berfformiad) erbyn diwedd mis Hydref pob blwyddyn.
<b>3</b>	<b>Adnoddau Dynol</b>	Mae cyfeiriad penodol at y pennawd hwn yn y rhan o'r ddogfen sy'n ymwneud ag amcanion

<b>C - Goblygiadau ac Effeithiau</b>		
		gwellia.
<b>4</b>	<b>Gwasanaethau Eiddo</b> (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	Mae cyfeiriad penodol at y pennawd hwn yn y rhan o'r ddogfen sy'n ymwneud ag amcanion gwellia.
<b>5</b>	<b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)</b>	Mae cyfeiriad penodol at y pennawd hwn yn y rhan o'r ddogfen sy'n ymwneud ag amcanion gwellia.
<b>6</b>	<b>Cydraddoldeb</b> (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	Mae cyfeiriad penodol at y pennawd hwn yn y ddogfen.
<b>7</b>	<b>Gwrthdlodi a Chymdeithasol</b> (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	Mae yna oblygiadau anuniongyrchol i'r agenda gwrthdlodi a chymdeithasol fel rhan o'r wybodaeth sydd yn y ddogfen.
<b>8</b>	<b>Cyfathrebu</b> (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	Mae cyfeiriad penodol at y pennawd hwn yn y rhan o'r ddogfen sy'n ymwneud ag amcanion gwellia.
<b>9</b>	<b>Ymgynghori</b> (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	Mae cyfeiriad penodol at y pennawd hwn yn y rhan o'r ddogfen sy'n ymwneud ag amcanion gwellia.
<b>10</b>	<b>Economaidd</b>	Mae cyfeiriad penodol at y pennawd hwn yn y rhan o'r ddogfen sy'n ymwneud ag amcanion gwellia.
<b>11</b>	<b>Amgylcheddol</b> (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	Mae cyfeiriad penodol at y pennawd hwn yn y rhan o'r ddogfen sy'n ymwneud ag amcanion gwellia.
<b>12</b>	<b>Troedd ac Anrhefn</b> (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	Mae cyfeiriad penodol at y pennawd hwn yn y rhan o'r ddogfen sy'n ymwneud ag amcanion gwellia.
<b>13</b>	<b>Cytundeb Canlyniadau</b>	Mae yna ran benodol ar ganlyniadau darpariaeth yn erbyn blwyddyn 1 o'r Cytundeb Canlyniadau gyda'r Cynllun.

<b>CH – Crynodeb</b>
Mae'n ofyniad Statudol dan Raglen Cymru ar Gyfer Gwelliant a Mesur Llywodraeth Leol (2009) i'r Cyngor adrodd ar ei berfformiad cyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn.
Cafodd Blaenoraiathau Gwella'r Cyngor (Cynllun Busnes Corfforaethol) ei gyflwyno i'r

Cyngor i'w gymeradwyo ar 5 Gorffennaf 2010. Yn ychwanegol at hyn, rhaid cyhoeddi'r adolygiad perfformiad blynnyddol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn yn sôn am berfformiad y gorffennol. Mae'r papur hwn yn ymwneud â chynhyrchu'r Cynllun Gwella - Adolygiad Perfformiad sydd yn edrych yn ôl (drafft) dros berfformiad y Cyngor ar gyfer 2010/11 ac sydd yn cael ei gyflwyno fel crynodeb byr o'r prif benawdau yn y ddogfen adolygu perfformiad ei hun. Mae angen gwneud gwaith golygyddol pellach cyn cwblhau'r gwaith cyhoeddi, a dygir sylw'r Comisiynwyr at y ffaith hon.

Bydd angen cyflwyno'r Cynllun Gwella i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo cyn diwedd Hydref 2011 ac mae eisoes wedi ei raglennu i gael ei adrodd i Fwrdd y Comisiynwyr ar y 3ydd o Hydref (yn cynnwys sylwadau y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol).

#### D – Argymhelliaid

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgrwtini i:

- Ddadansoddi'r adroddiad ar PI's gan agymhell arweiniad i'r Cyngor o pa ddangosyddion perfformiad Cenedlaethol y dylsa'r Cyngor ei flaenoriaethu a gwella ar berfformiad yn ystod 2011/12.

**Enw awdur yr adroddiad:**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

**Gethin Morgan**

**Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglenni**

**21 Medi 2011**

#### Atodiadau:

Cynllun Gwella (2010/11) - Edrych yn ôl  
Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Dangosyddion Strategol Craidd 2010/11

#### Papurau Cefndirol:

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) - 2009 Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cyngor Sir - 11 Mai 2011

**Gair gan y Prif Weithredwr/Comisiynwyr...**

DRAFT

## **Datganiad o gyfrifoldeb**

Mae'r Adolygiad hwn wedi ei gynhyrchu ar y sail mai Cyngor Sir Ynys Môn sy'n gyfrifol am barato'i'r Adolygiad, am yr wybodaeth a'r asesiadau sydd yn ddo a'r amcangyfrifon sydd wrth wraidd rheiny.

Mae'r Awdurdod yn fodlon fod yr wybodaeth a'r asesiadau sydd wedi eu cynnwys yn yr Adolygiad, o ran bob ystyriaeth sylweddol, yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred.

**Gellir cynhyrchu'r ddogfen hon ar gais mewn Braille, print bras, ar dâp neu ar ddisg – gweler tudalen 44 am fanylion cyswllt.**

Gair gan y Prif Weithredwr / Comisiynwyr	1
Rhagarweiniad	4
Ffocws a blaenoriaethau strategol	5
Adroddiadau Rheoleiddio 2010/11	6
Gwella Llywodraethu Corfforaethol	10
Adroddiadau Archwilio ac Arolygu	12
Dangosyddion Perfformiad	18
Cytundeb Canlyniadau	40
Perfformiad Ariannol 2009/10	47
Cydweithio	49
Sicrhau cyfartaledd a chynaladwyedd	49
Ymdrin â'n Hamcanion ar gyfer Gwella	51
Canfod mwy	79
Atodiadau	
1. Dangosyddion Strategol Cenelaethol – canlyniadau 2010/11	
2. Dangosyddion Craidd – canlyniadasu 2010/11	

## Rhagarweiniad

Yng Nghyfnod 1 y Cynllun i'r dyfodol am 2010/11 a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf (Cynllun Busnes Corfforaethol 2010/11), amlinellwyd ein blaenoriaethau ar gyfer gwella am y flwyddyn, ac eglurwyd bod angen i ni bellach ganolbwytio ar gynllunio gwelliannau yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 sy'n gosod dyletswydd cyffredinol ar awdurdodau lleol i "wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus wrth weithredu [ein] swyddogaeth."

Roedd y canllaw Drafft bryd hynny gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (WAG) yn sail i'n Cynllun Cyfnod 1. Roedd y canllaw yn darparu cwmpas sylweddol i'r Cyngor bennu ei flaenoriaethau ar gyfer gwella. Ond, roedd hefyd yn amlygu angen sylfaenol i gydbwys o gwelliant parhaus gyda chynnydd mewn effeithlonwydd ar adeg pan oedd cylidebau yn cael eu cwtogi. Roedd y Mesur yn canolbwytio ar gryfhau'r cysylltiadau rhwng datblygu a chyflawni Strategaeth Gymunedol a'n hamcanion ar gyfer gwella. Hefyd, roedd yn gosod mwy o bwyslais ar gydweithio ac ymgysylltu â dinasyddion er mwyn siapio'r gwelliannau.

Yn y Cynllun Cyfnod 1, rydym yn gosod y cyd-destun ar gyfer siapio ein gwelliannau a, 2010/11, sy'n cynnwys:

- Y cyd-destun lleol a chenedlaethol
- Ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau strategol fel corff
- Sialensau a chyfleoedd i wneud gwelliannau ar draws gwasanaethau
- Ein prif flaenoriaethau gwella ar gyfer y flwyddyn
- Ein hymagwedd tuag at gynllunio busnes a monitro perfformiad
- Trefniadau monitro er mwyn asesu cynnydd

Mae'r Cynllun cyfnod 2 hwn (edrych yn ôl) yn edrych ar sut y gwnaethom berfformio o ran yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud yn ystod 2010/11.

## Ffocws a blaenoriaethau strategol

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar siapio ein blaenoriaethau, mabwysiadodd y Cyngor nod strategol newydd ym mis Mawrth 2010: "Bydd y Cyngor yn hyrwyddo ac yn diogelu buddiannau'r Ynys yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol" a hefyd mabwysiadwyd pum blaenoriaeth strategol newydd a nifer o gamau gweithredu cefnogol fel sail i'r nod strategol hwn. Roedd rhain yn darparu fframwaith ar gyfer cynllun busnes corfforaethol a chynlluniau darparu gwasanaeth y Cyngor am 2010/11. Mae'r pum blaenoriaeth strategol yn themâu bras ac maent yn ymdriniaeth gytbwys sy'n adlewyrchu ein cyfrifoldebau statudol, ein ffocws ar well trefniadau llywodraethu corfforaethol, effeithlonrwydd gwasanaethau a chanlyniadau cymunedol. Dyma ein blaenoriaethau strategol:

- BS1 – Gwella enw'r Cyngor a'r Ynys
- BS2 – Diogelu a datblygu economi'r Ynys
- BS3 – Adeiladu a chefnogi cymunedau cynaliadwy
- BS4 – Hyrwyddo cymunedau iach, diogel a theg
- BS5 – Gwasanaethau fforddiadwy ac effeithiol

Caiff y blaenoriaethau strategol uchod eu cefnogi ymhellach gan amrediad o amcanion ar gyfer gwella a ddynodwyd ar gyfer 2010/11. Roedd yr amcanion hyn ar gyfer gwella yn ceisio darparu ymagwedd gytbwys a oedd yn adlewyrchu ein cyfrifoldebau statudol a dewisol, pwysigrwydd gwella llywodraethu corfforaethol a chamau gweithredu mewn ymateb i adroddiadau rheoleiddio, effeithlonrwydd gwasanaethau a ffocws cymunedol. Roeddent yn ymdrin yn benodol â:

- Pharhau i weithredu'r Cynllun Adfer a meysydd risg allweddol
- Y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy a rheoli cyllidebau llai yn y dyfodol
- Mentrau a meysydd rhaglen allweddol (ee Ynys Ynni)
- Yr agenda cydweithio a thrawsnewid (ee mentrau Partneriaeth Gogledd Cymru)
- Ffrydiau gwaith sy'n gysylltiedig â phartneriaethau allweddol eraill.

**Mae'r Cynllun hwn yn adrodd ar y cynnydd a wnaed o ran yr amcanion ar gyfer gwella 2010/11 a chyflawni ein blaenoriaethau strategol.**

# Adroddiadau Rheoleiddio 2010/11

Yn ystod 2010/11, cyhoeddwyd yr adroddiadau rheoleiddio a ganlyn sy'n darparu gwybodaeth ar y prif faterion yr oedd angen i'r Cyngor ymdrin â nhw gan gynnwys adborth ar gynnydd a wnaed gan y Cyngor o ran ymdrin â'r materion hyn.

## Llywodraethu

### Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Medi 2010

### Adroddiad Blynnyddol ar Wella – Ionawr 2011

### Arolygiad Arbennig: Ail-arolygiad Llywodraethu Corfforaethol - Mawrth 2011

## Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol

Yn yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Medi 2010, y casgliad cyffredinol ynglŷn ag ymagwedd a threfniadau'r Cyngor ar gyfer gwella oedd:-

- Bod y Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i ymyriad y Gweinidog ond bod llawer iawn o waith ar ôl i'w wneud i weithredu'r cynlluniau ac yna sefydlu'r broses o foderneiddio ei drefniadau corfforaethol ac i sicrhau bod y gwelliannau yn gynaliadwy;
- Mae llawer o'r sylfeini mewn lle i ymdrin â gwendidau hirsefydlog ond mae amheuaeth yn bodoli ynglŷn â chynaladwyedd y gwelliannau;
- Mae arweinyddiaeth bendant yn dechrau gwella'r broses lywodraethu ond mae llawer o waith ar ôl i'w wneud i weithredu cynlluniau ac yna sefydlu'r broses o foderneiddio trefniadau corfforaethol y Cyngor.

Roedd cyfeiriad penodol at ein Cynllun Gwella i'r dyfodol ar gyfer 2010/11 yn nodi:

..." Mae ein hasesiad wedi canfod meysydd lle teimlwn y dylai'r Cyngor ystyried gweithredu. Nodwn fod Cynllun Gwella'r Cyngor 2010-11, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2010, yn cynnwys camau gweithredu a allai ymdrin â rhai o'r meysydd hyn ar gyfer gwella".

Fe aeth yr asesiad ymlaen i enwi'r meysydd penodol hynny fel a ganlyn:-

### **Meysydd ar gyfer gwella**

**P1** Dylai'r Cyngor wella mynediad i'r cyhoedd i'w drafodion drwy: gyhoeddi agenda ar ei wefan ymhell cyn pob cyfarfod gan gynnwys y papurau heb eu heithrio ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllogorau; a sicrhau bod cofnodion y cyfarfodydd hynny yn cael eu cyhoeddi rhag blaen.

**P2** Dylai'r Cyngor ddatblygu a gweithredu'n gyson ar draws bob gwasanaeth ymagwedd glir tuag at reoli risg sy'n gysylltiedig â'i drefniadau rheoli perfformiad.

**P3** Dylai'r Cyngor, o ran ei hun a chyda'i bartneriaid, ddiffinio mesurau clir er mwyn gallu asesu'n gadarnach ei gynnydd o ran ymdrin â'i amcanion ar gyfer gwella.

**P4** Dylai'r Cyngor integreiddio'r defnydd o wybodaeth ariannol a pherfformiad yn well er mwyn darparu darlun mwy cynhwysfawr o berfformiad gwasanaethau.

**P5** Er mwyn sicrhau bod y rheiny sy'n cynrychioli'r Cyngor mewn swyddi o gyfrifoldeb yn atebol am eu perfformiad, dylai'r Cyngor: ddatblygu a gweithredu'n gyson ar draws yr holl wasanaethau system ar gyfer arfarnu swyddogion; a gweithredu'r trefniadau sydd ar droed i arfarnu aelodau etholedig gan ganolbwytio'n bennaf ar eu perfformiad wrth gyflawni eu rolau penodol, ac yn fwy cyffredinol fel aelodau pwylgor.

**P6** Dylai'r Cyngor ddatblygu a gweithredu strategaeth cyn etholiadau 2012 i addysgu dinasyddion am rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd modern a, thrwy wneud hynny, hyrwyddo mwy o amrywiaeth yn y Cyngor.

### **Cyflwynwyd yr Adroddiad hwn i'r :-**

- **Cyngor Sir ar 28/10/10**
- **Grŵp Llywio'r Adferiad 23/11/10**
- **Pwyllgor Sgriftini Corfforaethol 4/11/10**
- **Pwyllgor Archwilio 14/12/10**

### **Adroddiad Blynnyddol ar Wella**

Yn yr Adroddiad Blynnyddol ar Wella a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2011, dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru ... "Mae Cynllun

Gwella'r Cyngor 2010-11 (Adolygiad o Berfformiad 2009-10) yn diwallu'r gofynion statudol ac yn darparu barn gytbwys ar ei berfformiad yn 2009-10. Cyhoeddwyd y Cynllun ar wefan y Cyngor o fewn y terfyn amser statudol ond o ran y sefyllfa fel ag yr oedd ar 5 Tachwedd, nid oedd copïau caled ar gael a oedd felly'n cyfyngu ar fynediad i'r ddogfen".

Yna, mae'r Adroddiad yn dweud, o ran ein Cynllun Gwella i'r dyfodol am 2010/11 (a ailenwyd yn Gynllun Busnes Corfforaethol 2010/11) a'n hamcanion ar gyfer gwella... 'teimlwn fod amcanion y Cyngor ar gyfer gwella yn ddilys; maent yn ymdrin ag un neu fwy o'r saith maen prawf a benwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn ei ganllaw".

Mae'r adroddiad, sy'n gadarnhaol yn bennaf, yn mynd ymlaen i ddweud fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd. Roedd newidiadau strwythurol ar lefel uwch reolwyr yn dechrau cynyddu capaciti'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol i ganolbwytio ar faterion strategol tra'n cynyddu atebolwydd penaethiaid gwasanaeth am faterion gweithredol, ond bod angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn:

- cynnal ffocws clir ar y rhaglen waith uchelgeisiol yr oedd wedi ei osod i'w hun am 2010-11; ac yn
- mabwysiadu rhaglen yr un mor uchelgeisiol am 2011-12 sy'n cynnal momentwm y misoedd diweddar.

Cydnabu'r adroddiad bod nifer o'r gwendidau hir sefydlog o ran llywodraethu yn y Cyngor yn cael sylw er bod angen gweithredu ymhellach ar nifer o feysydd allweddol, ee rheoli perfformiad, rheoli prosiect, rheoli risg ac ymgysylltiad cymunedol. Mae'r casgliadau hyn wedi bod yn sylfaen i raglen waith strategol y Cyngor ar gyfer 2011/12.

Mae'r rheoleiddwyr wedi cydnabod y gwaith a wnaed gan yr awdurdod ar ddatblygu a diweddu ei strategaeth ariannol tymor canol yn yr hinsawdd ariannol heriol sydd ohoni er bod sicrhau'r arbedion sydd eu hangen i gyflawni'r rhaglen blaenorriaethau fforddiadwy'r Cyngor ar gyfer y tymor canol yn parhau i fod yn risg.

Fodd bynnag, dygodd yr Archwiliwr Cyffredinol sylw penodol at lithriad sylweddol yn y trefniadau llywodraethu o ran diffyg cydymffurfiaeth gyda'r rheoliadau adrodd ariannol gan arwain at fethiant ar ran y Cyngor i gymeradwyo'r datganiad cyfrifon ar gyfer 2009/10 erbyn y dyddiad statudol.

### **Arolygiad Arbennig: Ailarolygiad Llywodraethu Corfforaethol – Mawrth 2011**

Ym mis Chwefror 2011, gofynnodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i'r Archwiliwr Cyffredinol gynnal ailarolygiad o Gyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) yn dilyn yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol a gynhalwyd yn 2009. Felly, cynhalwyd arolygiad arbennig gan yr Archwiliwr Cyffredinol gan ddefnyddio ei swyddogaethau dan adran 21 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

Gofynnodd y Gweinidog i'r Archwiliwr Cyffredinol gynnal asesiad brys o'r sefyllfa yn y Cyngor. Gofynnodd iddo gynnwys y cynnydd a oedd yn cael ei wneud gan y Cyngor tuag at ymdrin â chanfyddiadau adroddiad yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009 a photensial y Cyngor i ymdrin â'r canfyddiadau hynny yn llawn, yn derfynol ac mewn modd cynaliadwy erbyn mis Awst 2011. Cynhaliwyd yr arolygiad dros bedwar diwrnod yn ystod y cyfnod 23 i 28 Chwefror 2011 a chyhoeddwyd y canfyddiadau ym mis Mawrth 2011.

Unwaith eto, roedd adroddiad yr ailarolygiad Corfforaethol yn ailadrodd canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol a'r Adroddiad Blynnyddol ar Wella, sef bod y Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i ymyriad y Gweinidog – yn bennaf mewn perthynas â'r modd y rheolir y Cyngor a'i brosesau busnes a sgrivtini – ond bod llawer o waith ar ôl i'w wneud o ran gweithredu cynlluniau ac yna sefydlu'r broses o foderneiddio trefniadau corfforaethol y Cyngor a sicrhau bod yr adferiad yn gynaliadwy. Roedd yr ailarolygiad yn bennaf yn canolbwytio ar achosion ac effaith yr ansefydlogrwydd gwleidyddol diweddaraf yn y Cyngor ers mis Ionawr 2011. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad oedd ymyriad Gweinidogion Cymru yn 2009 wedi bod yn llwyddiant o ran sicrhau adferiad cynaliadwy o hanes hir y Cyngor o fod wedi'i lywodraethu'n wan, a bod angen ymyrraeth gryfach.

Yn seiliedig ar asesiad o'r tebygolrwydd y gallai'r Cyngor gyflawni adferiad cynaliadwy o'r sefyllfa yr oedd ynddi ym mis Gorffennaf 2009, dywedodd yr Archwiliwr Cyffredinol fod y Cyngor yn methu â chydymffurfio â gofynion Rhan 1 y Mesur Llywodraeth Leol. Felly, penderfynodd **argymhell** fod Gweinidogion Cymru yn cyflwyno cyfarwyddyd i'r Cyngor dan adrannau 29 y Mesur i fynnu bod :

- i. yr awdurdod yn cydymffurfio â Rhan 1 y Mesur;
- ii. swyddogaethau gweithredol yr awdurdod yn cael eu cyflawni gan gomisiynwyr i'w penodi gan Weinidogion Cymru nes bod Gweinidogion Cymru'n teimlo y gellid cwtogi ar y cyfarwyddyd hwnnw; a
- iii. y swyddogaeth o ddynodi pennath gwasanaeth cyflogedig yn cael ei gyflawni gan Weinidogion Cymru a bod y swyddogaethau o benodi swyddog monitro neu swyddog Adran 151, pe bai'r swyddi hyn yn codi, yn cael ei wneud gan y comisiynwyr a benodir gan Weinidogion Cymru drwy gydol cyfnod y cyfarwyddyd.

#### **Pen draw hyn oedd bod Llywodraeth Cymru wedi penodi 5 Comisiynydd i gyflawni swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2011.**

Cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Cyngor ar Asesiad Gwelliant gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Awst 2011 sydd yn cael ei gyfarch ar hyn o bryd gan y cyngor.

## Gwella Llywodraethu Corfforaethol

Roedd Cynllun Gwella 2009/10 yn cyfeirio at ganfyddiadau'r Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol (Gorffennaf 2009) o'r Cyngor, a pharhaodd y Cynllun Adfer ar gyfer gwella llywodraethu corfforaethol i fod yn flaenoriaeth dan arweiniad y Rheolwr-Gyfarwyddwr Dros Dro. Cydnabuwyd y byddai'r gwaith hwn eto yn flaenoriaeth allweddol am 2010/11.

### Cynnydd yn erbyn y Cynllun Adfer 2010-11

Rhoddwyd y dasg o fonitro cynnydd y Cyngor i'r Bwrdd Adfer a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (WAG). Yn ystod 2010-11, gwnaed cynnydd sylweddol ar feysydd gwaith penodol sydd hefyd yn dwyn cysylltiad uniongyrchol ag amcanion gwella penodol y Cyngor.

Fel yr adroddwyd wrth Grŵp Llywio'r Adferiad ar 17 Chwefror 2011, ymdrinniwyd â thua 82% o'r Rhaglen Adfer, yn cynnwys nifer sylweddol o is-dasgau dan y prif benawdau (a nodir isod).

Eitem Cynllun Adfer	% a gwblhawyd
Datblygu Aelodau	100
Rhaglen Datblygu Cydweithio rhwng Aelodau a Swyddogion	87
Cryfhau Arweinyddiaeth ac Ymgysylltiad Cymunedol	44
Gwneud y Cyngor yn fwy Effeithiol	44
Rheoli Cynaladwyedd tueddiadau Perfformiad.	94
Gwella Enw'r Cyngor	52
Cynllun Gweithredu AD	74

Dyma rai o'r meysydd datblygiad a gwelliant o ganlyniad i'r Rhaglen Adfer:

- Y Cyngor yn cofleidio newid ac yn parhau i ganolbwytio ar well trefniadau llywodraethu
- Datblygu a chwblhau Cynllun Busnes Corfforaethol Newydd
- Rheolwyr yn cael gym ond yn atebol am berfformiad – Ethos Môn
- Pennu Cyllideb – ond llawer o heriadau'n dal i fodoli
- Sefydlu Adolygiadau Rheoli Sefydliadol
- Ailddiffinio rolau'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Penaethiaid Gwasanaeth

- Gwaith yn parhau ar Bolisiâu a Model AD
- Gwelliannau a chryfhau sgriftini. Rheoli Perfformiad a Rheoli Prosiectau.

Ond, roedd heriadau sylweddol yn dal i fodoli, yn arbennig o ran cynaladwyedd yr adferiad ac ymateb i ymyrraeth, cyflawni'r Rhaglen Blaenoraiethau Fforddiadwy – tua £11m dros 3 blynedd – a'r angen i ganolbwytio ar brosiectau cydweithio a'u cyflawni ar draws y rhanbarth ac yn lleol, fel Ynys Ynni.

## Adroddiadau Archwilio ac Arolygu

Ynghyd â pharhau i roi sylw i faterion a gododd o'r Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol, gwnaed gwaith rheoleiddiol yn ystod 2010/11 mewn meysydd eraill yn y Cyngor. Ceir crynodeb isod:

### Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cymdeithasol Statudol ar Berfformiad, Gwella a Sgriwtini

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, rhaid i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, o 2010, adrodd yn flynyddol i'r Cyngor ar ddarparu gwasanaethau; perfformiad a risg a chynlluniau ar gyfer gwella ar draws yr amrediad cyfan o swyddogaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd yr adroddiad hwn a'r dystiolaeth sy'n sylfaen iddo yn gymorth i ddatblygu rhaglen waith flynyddol yr AGGCC ar gyfer yr Awdurdod gan gynnwys y cynllun rheoleiddiol cyffredinol ar gyfer yr Awdurdod cyfan.

Mae sgriwtini'n hanfodol ac yn rhan gyfannol o'r broses o baratoi'r Adroddiad Blynnyddol. I'r perwyl hwn, sefydlwyd Panel Sgriwtini gan y Pwyllgor Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol i sgriwtineiddio cynnwys yr Adroddiad Blynnyddol wrth iddo gael ei ddatblygu. Rhwng Ionawr a Mehefin 2011, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd o'r Panel Sgriwtini lle bu aelodau'n herio gridiau dystiolaeth mewn perthynas â swyddogaethau unigol ac yn monitro cynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol yn ystod y broses o baratoi'r Adroddiad Blynnyddol.

Cyflwynwyd y draft terfynol o'r Adroddiad Blynnyddol i Gomisiynwr y Cyngor ym Mehefin 2011 a'i gymeradwyo ganddynt ac yna, cafodd ei gyhoeddi wedyn ar wefan y Cyngor. Casgliad yr Adroddiad oedd bod 2010/11 wedi bod yn flwyddyn heriol i'r Adran a'i staff ac y bydd y blynnyddoedd i ddod yn arbennig o heriol. Er mwyn ymdopi gyda'r cynnydd yn y galw am wasanaethau mewn cyfnod lle mae adnoddau'n prinbau, bydd angen dull gweithio sydd â ffocws penodol, sy'n dryloyw ac yn fwriadol. Nodwyd a rhoddwyd sylw i'r blaenoriaethau isod gan y gwasanaeth ar gyfer 2010/11:

- Sicrhau bod yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyflawni ei dyletswyddau statudol ar ran y Cyngor
- Parhau i warchod a chefnogi'r rheiny sydd wedi cael eu hasesu fel y mwyaf bregus yn ein cymunedau
- Parhau i ymrwymo i weithio mewn partneriaeth i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio, integreiddio gwasanaethau a dod o hyd i adnoddau ychwanegol o ffynonellau ac adnoddau cyllido allanol
- Parhau i wella busnes a'r prosesau comisiynu

Buddsoddi er mwyn hyfforddi a datblygu'r gweithlu.

## **AGGCC – Gofal Cartref (Ionawr 2011)**

Cafodd gwasanaeth gofal cartref y Cyngor, Gofal Mon, ei archwilio gan AGGCC yn gynnar yn 2011 ble adolygwyd cynnydd yn erbyn mater cydymffuriad adnabwyd y flwyddyn cynt oedd yn ymwneud a cynnal gwiriadau SCT. Mae cydymffuriad llawn bellach wedi'w gyrraedd ond mae angen mwy o waith i sicrhau fod y broses ricriwtio yn gadarnach ac fod goruchwyliaeth staff yn cael eu gweinyddu'n well. Cafwyd sylwadau positif ynglyn a charedigrwydd gofalwyr, fod y gwasanaeth yn ddibynadwy ac yn cwrdd ac anghenion defnyddwyr gwasanaeth.

## **AGGCC – Arolygiad o'r Trefniadau Diogelu Oedolion (Mawrth 2010)**

Ym mis Rhagfyr 2010, adolygodd yr AGGCC y trefniadau ar gyfer diogelu oedolion bregus ym Môn. Bu iddynt adolygu'r holl agweddau o'r gwasanaethau gweithredol ynghyd â chyfeiriad ac arweiniad strategol. Rhyddhawyd yr adroddiad terfynol ddiwedd mis Mawrth 2010. Lluniwyd Cynllun Gwella i roi sylw i'r holl argymhellion yn Adroddiad yr AGGCC. Cymeradwywyd y Cynllun Gwella gan y Cabinet yn Ebrill 2010.

Yn gyffredinol, cafwyd yr argraff gan yr Arolygwyr bod y gwasanaeth yn foddaol ac yn 'ymrwymo i ddarparu ymateb trwyadl, cyson a dibynadwy i gyfeiriadau'. Fodd bynnag, y prif faes yr oedd angen ei wella oedd yr angen am fwy o arweiniad strategol, yn arbennig gan Bwyllgor Ardal Ynys Môn a Gwynedd ar gyfer Diogelu Oedolion a fu'n cyfarfod yn chwarterol yn ystod 2010/11. Er mwyn darparu gwell arweiniad strategol ar gyfer y Pwyllgor hwn, mae Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Gwynedd ac Ynys Môn yn aelodau ohono erbyn hyn. Caiff y Pwyllgor ei gadeirio gan gynrychiolydd annibynnol o'r trydydd sector.

Cafodd Adroddiad Blynnyddol POVA ar gyfer 2009/10 ac adroddiad cynnydd ar y Cynllun Gwella ei gyflwyno I Bwyllgor Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn ym mis Ionawr 2011. Roedd y Cynllun Gweithredu a baratowyd mewn ymateb i argymhellion yr AGGCC yn sylfaen i'r adolygiad o'r Grid Tystiolaeth Diogelu Oedolion ar gyfer 2010/11 sy'n sail i Adroddiad Blynnyddol y Cyfarwyddwr Statudol.

Cafodd rhaglen flynyddol hyfforddiant Lefel 2 POVA ei darparu yn ystod 2010/11 a'i hymestyn i gynnwys staff y trydydd sector a darparwyr gwasanaeth annibynnol.

## **AGGCC – Trefniadau ar gyfer asesu a rheoli gofal plant a gyfeirir at CSYM (Mawrth 2011)**

Roedd arolygiad gan AGGCC ym Mawrth 2011 yn canolbwytio ar y prosesau asesu a rheoli gofal. Roedd yr Arolygiaeth yn bryderus ynghylch dulliau asesu a rheoli gofal plant ym Môn ac yn feirniadol o ansawdd yr asesiadau a phrydlondeb cwblhau

asesiadau (gweler hefyd y rhan ar Ddangosyddion Perfformiad ac Atodiad 1). Gwnaed cyfeiriad hefyd at gyfathrebu gwael rhwng staff ac asiantaethau partner a diffyg diwylliant rheoli perfformiad ac absenoldeb system sicrwydd ansawdd.

Rhaid nodi fodd bynnag bod nifer o bethau cadarnhaol yn yr adroddiad a rhaid pwys o mesur hyn yn erbyn sialensiau a nodwyd. Nodwyd yn yr adroddiad bod y llwyth achosion wedi cael ei leihau i lefel yr oedd modd ymdopi â hi, dywedodd staff eu bod yn cael eu goruchwylion rheolaidd, yn derbyn cefnogaeth ac yn cael eu gwerthuso'n flynyddol. Roedd adroddiadau i gynadleddau amddiffyn plant yn dystio i asesiadau strwythur dig a nodwyd yn yr adroddiad bod y Cyngor yn gweithio'n dda gyda rhai asiantaethau partner o ran cynllunio a darparu cefnogaeth i deuluoedd. Nodwyd yn yr adroddiad hefyd bod rhai defnyddwyr gwasanaeth wedi cael budd sylweddol o'r cymorth a gawsant.

Mae cynllun gwella cynhwysfawr wedi cael ei gyflwyno mewn ymateb i'r adroddiad ac adnoddau wedi cael eu rhyddhau i gyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd. Comisiynwyd Tîm Cefnogaeth Annibynnol i gefnogi'r raglen wella ac i adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr. Mae Bwrdd Gwella wedi cael ei sefydlu i sicrhau bod y Rhaglen Wella'n cael ei goruchwylion effeithiol a bod y Bwrdd, drwy her a chefnogaeth, yn gallu cyflawni'r raglen wella i'r safonau gofynnol. Bydd y Bwrdd yn adrodd i Fwrdd Gwella'r Comisiynwyr a'r Pwyllgor Trosolwg Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bydd swyddogaethau diogelu'r gwasanaeth yn cael eu harolygu eto yn y dyfodol agos iawn. Bydd canlyniad yr arolygiad hwn yn rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw welliant yn y gwasanaeth, y sialensiau sy'n parhau ac unrhyw gamau pellach sy'n angenrheidiol i sicrhau fod safonau perfformiad yn fodhaol ac yn gynaliadwy. Bydd argymhellion yr adroddiad ar gael i'r Pwyllgor hwn.

Yn ychwanegol at hyn, cafwyd sawl arolygiad o wasanaethau rheoleiddiol y gwasanaeth. Paratowyd cynlluniau gweithredu mewn ymateb i argymhellion yr adroddiadau ac mae adolygiad o'n strategaeth gomisiynu mewn perthynas â gofal preswyl yn mynd rhagddo.

### **Arolygiad ac Archwiliad Allanol AGGCC – Gwasanaethau Gofal Preswyl i Blant 2010/11**

Derbyniwyd adroddiad arolygu gan AGGCC ym mis Mawrth 2011 dan ddarpariaethau Deddf Safonau Gofal 2000 a rheoliadau cysylltiedig. Yn yr arolygiad hwn, nodwyd materion o bwys mewn perthynas â'r modd yr oedd Queen's Park yn cael ei redeg, ei reoli a'i fonitro a daethpwyd i'r casgliad nad oedd y cartref yn cwrdd â'r Safonau Sylfaenol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Plant. O ganlyniad, penderfynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol adolygu trefniadau ar gyfer comisiynu a darparu gofal preswyl i blant yn y dyfodol. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud hyd yma ynghylch dyfodol yr uned.

## **AGGCC – Gwasanaethau Mabwysiadu o fewn y fframwaith ehangach o Gynllunio ar gyfer Sefydlogrwydd (Medi 2010)**

Yn yr arolygiad hwn, daethpwyd i'r casgliad fod yr asiantaeth yn darparu gwasanaeth da. Nodwyd bod y staff yn brofiadol, yn frwd frydig ac yn sensitif i holl agwedda'u'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu. Er y gwelwyd enghreifftiau o ymarfer da, roedd angen gwneud mwy o waith i wella ansawdd arferion gofal plant ar draws y gwasanaeth. Mae dystiolaeth bod yr awdurdod wedi ceisio mynd i'r afael â'r newidiadau niferus y mae'n rhaid i wasanaeth mabwysiadu ymdopi â nhw yn dilyn cyflwyno'r rheoliadau newydd.

Roedd y materion a godwyd yn ymwneud â:

- Lefel y llwyth achosion a modelau rheoli baich gwaith
- Eglurder mewn perthynas â'r broses sy'n ymwneud ag ymchwilio i a chefnogi opsiynau amgen ar gyfer darparu sefydlogrwydd i blant

## **AGGCC – Arolygiad ac Archwiliad Allanol ar y Gwasanaeth Maethu (Mawrth 2011)**

Derbyniwyd adroddiad arolygu gan yr AGGCC ym mis Mawrth 2011 dan ddarpariaeth Deddf Safonau Gofal 2000 a rheoliadau cysylltiedig. Yn yr arolygiad hwn, nodwyd nifer o bethau cadarnhaol mewn perthynas â

- Sgiliau, profiad a chymwysterau'r staff
- Cefnogaeth dda i ofalwyr maeth
- Sylwadau cadarnhaol gan y bobl ifanc y gofelir amdanynt

Roedd rhai meysydd yr oedd angen eu datblygu a gwnaed dau ofyniad drwy gyhoeddi rhybuddion cydymffurfio. Cymerwyd camau i gywi'r sefyllfa.

## **AGGCC - Arolygiad o Gartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hyn**

Yn ystod 2010-11, cafodd y cartrefi gofal isod ar gyfer pobl hyn eu harolygu gan yr AGGCC

"Garreglwyd" 2/6/2010  
"Brwynog" 23/6/2010  
"Plas Penlan" 28/7/2010  
"Plas Mona" 17/9/2010

Dim materion o bwys wedi eu nodi a daethpwyd i'r casgliad fod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o safon dda yn gyffredinol.

## **Swyddfa Archwilio Cymru – Gordalu Budd-daliadau (adroddiad lleol o adolygiad cenedlaethol) Tachwedd 2010**

Cafwyd oedi o 13 mis rhwng gwneud y gwaith maes a chyhoeddi'r canlyniadau. Gwnaed cryn gynnydd ers y gwaith maes cychwynnol. Mae digwyddiadau wedi cymryd drosodd mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r eitemau - ond ar ddiwedd Chwarter 4 2010-11, roedd rhai materion adrodd a oedd yn benodol i system Northgate.

### **Archwilio Mewnol**

Yn ogystal a gwaith rheoleiddiol allannol, cyhoeddwyd 52 adroddiad archwilio ffurfiol gan Archwilio Mewnol yn 2010/2011, igymharu a 51 y flwyddyn cynt. Mae'r cyfanswm felly yn gydnaws a perfformaid yn 2009/10. Mae'r ffigwr yn cynnwys pedwar ar ddeg o adroddiadau ychwanegol a gyhoeddwyd yn 2010/11 oedd heb eu cynllunio ar gyfer y cyfnod hwn, ond oedd yn angenrheidiol oherwydd materion cydymffurio a/neu risg, neu o ganlyniad i waith ymchlio . Mae'r gwaith hwn yn cyfranu tuag at ein agenda gwella yn gyffredinnol, fel nodi'r yn y Tabl isod.

<b>Math o Archwiliad</b>	<b>Nifer cynllu niwyd yn wreiddiol</b>	<b>Archwiliadau gwblhawyd erbyn 31/3/11</b>	<b>Adroddiad Drafft a gyhoeddwyd 31/3/11</b>	<b>Gwaith yn parhau 31/3/11</b>	<b>Arwchwiliad heb ddechrau 31/3/11</b>
Systemau	30	13	4	2	13
Cydymffurfiaeth	13	5	1	0	4
Sedfydliadau	16	9	1	1	5
Cytundebau	1	0	1	0	0
Adolygiad heb ei cynllunio	0	14	1	2	0
Adroddiadau 09/10	0	11	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>60</b>	<b>52</b>	<b>8</b>	<b>5</b>	<b>22</b>

### **Gweithredu Argymhellion Blaenorol**

Yn ei Adroddiad Gwella Blynnyddol (Ionawr 2011), fe nododd Arweinydd Asesu Gwella y gwaith awnaethpwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ar ddilyn fyny argymhellion unigol SAC lle roedd peth cynnydd mewn. Rhan fwyaf o achosion.

Dyweddodd fod angen I'r Cyngor gryfhau ei drefniadau ar gyfer adnabod risgiau a lefel blaenoriaeth ar gyfer pob argymhellion, eu cadw dan ystyriaeth ac ymateb iddynt mewn modd priodol. Mae'r Cyngor yn cydnabod fod angen cyfarch yr agweddau hyn, ac meant yn ffurfio rhan o Rhaglen Wella'r Cyngor ar gyfer 2011/12..

DRAFT

## Dangosyddion Perfformiad

Dan y Fframwaith Mesur Perfformiad a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2005, mae'n rhaid i bob cyngor yng Nghymru gasglu a rhannu data Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Dangosyddion Strategol Craidd i bob maes gwasanaeth. Gellir gweld canlyniadau llawn y Dangosyddion Cenedlaethol a'r Dangosyddion Craidd am 2010/11 yn yr Atodiadau.


### Sut gwnaethom berfformio yn 2010/11?

Mae'r darlun cyffredinol o ran ein dangosyddion perfformiad (DP) yn 2010/11 yn dangos ychydig o ddirywiad o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2009/10. Er bod 47% o'n DP wedi gwella ac 11% heb newid, mae 38% wedi dirywio dros y 12 mis diwethaf (Tabl 1). Caiff hyn ei adlewyrchu ymhellach yn y dirywiad bychan yn nifer y DP o fewn 25% uchaf awdurdodau Cymru yn 2010/11 (41 o'i gymharu â 50 yn 2009/2010), a'r rheiny yn y 25% is a feincnodir yn erbyn Cynghorau eraill Cymru (39 o'i gymharu â 34 yn 2009/10) fel a ddangosir yn Nhabl 2 a 3.


**Diffiniad o Chwartelau** :- un o'r tri phwynt sy'n rhannu amrediad o ddata neu'r boblogaeth yn bedair rhan gyfartal. Y chwartel cyntaf (a elwir hefyd yn chwartel isaf) yw'r rhif lle oddi tano y gorwedd 25 y cant o'r data isaf. Mae'r ail chwartel (y canol) yn rhannu'r amrediad yn y canol ac mae 50 y cant o'r data dan hwn. Mae'r trydydd chwartel (a elwir hefyd yn chwartel uchaf) â 75 y cant o'r data oddi tano a 25 y cant o'r data uchaf uwch ei ben.

**Tabl 1**


Crynodeb o berfformiad y maes  
2010-11

**Tabl 2**

Nifer y DP yn ôl blwyddyn ym mhob chwartel

**Tabl 3**

Nifer y DP fel chwartel yn ôl blwyddyn



Mae dadansoddiad manylach o'r wybodaeth graidd ar lefel adrannol a gwasanaeth yn creu'r darlun a ganlyn:-

Tabl 4

Perfformiad Cyngor Sir Ynys Môn			2010-2011			Newid Ers 2009-10		
Adran	Nifer o NSIs/CSIs	Heb adrodd	Nifer/% Chwartzel Uchaf	Nifer/% Chwartzel Canol	Nifer/% Chwartzel Is	Wedi Gwella	Dim Newid	Dirywiad
Adran y Prif Weithredwr	2 AD	2						
Adran Gyllid	3	1	0	2	0	1	0	1
Adran Addysg & Hamdden	19 Addysg 1 Hamdden 5 Gydol Oes/Llyfrgelloedd <b>Cyfanswm 25</b>	0 0 0 0	10 0 0 <b>10 (40%)</b>	6 1 3 <b>10 (40%)</b>	3 0 2 <b>5 (20%)</b>	9 1 2 <b>12 (48%)</b>	5 0 0 <b>5 (20%)</b>	5 0 3 <b>8 (32%)</b>
Adran Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol	8 Eiddo 17 Prifyrdd & RhG 23 Cynllunio & DC <b>Cyfanswm 48</b>	0 0 0 0	0 5 9 <b>14 (29%)</b>	6 7 10 <b>23 (48%)</b>	2 5 4 <b>11(23%)</b>	4 9 10 <b>23(48%)</b>	0 1 5 <b>6(12.5%)</b>	4 7 8 <b>19(39.5%)</b>
Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol	15 Tai 10 Oedolion 45 Plant <b>Cyfanswm 70</b>	2 0 0 2 (3%)	0 3 14 <b>17 (24%)</b>	8 4 16 <b>28 (40%)</b>	5 3 15 <b>23 (33%)</b>	4 3 26 <b>33(47.1%)</b>	0 0 7 <b>7(10%)</b>	9 7 12 <b>28(40%)</b>
<b>CYFANSWM CYFFREDINOL</b>	<b>148</b>	<b>5 (3%)</b>	<b>41 (27.7%)</b>	<b>63 (42.5%)</b>	<b>39 (26.3%)</b>	<b>69 (46.6%)</b>	<b>18 (12.1%)</b>	<b>56 (37.8%)</b>


## Perfformiad Uchel ac yn Gwella

Fel y gellir gweld o Tabl 4 (uchod), mae'r mwyafrif helaeth o'n Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol a'n Dangosyddion Strategol Craidd yn ddangosyddion sy'n ymwneud â pherfformiad gwasanaethau yn hytrach na meysydd corfforaethol.


Mewn perthynas â pherfformiad da a lle bu gwelliant yn ystod 2010-11, dylid nodi'n arbennig yr enghreiffiau a ganlyn o'r gwasanaethau addysg, gwasanaethau plant, cynllunio, gwarchod y cyhoedd a rheoli gwastraff.

O'r 10 dangosydd perfformiad yn y chwarter uchaf yn Addysg, mae 5 ymysg y gorau yng Nghymru o ran maint dosbarthiadau (Tabl 5), plant yn cael eu gwahardd o ysgolion cynradd, asesiadau anghenion arbennig sy'n cael eu cyflawni mewn pryd a darpariaeth addysg briodol ar gyfer disgyblion sydd wedi eu gwahardd yn barhaol. Mae'r ffigyrâu ar gyfer y cyfnod cyn 31 Awst yn dangos fod canran y disgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol mewn unrhyw ysgol awdurdod lleol sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu wrth weithio heb gymhwyster allanol cymeradwyedig, yn 15 oed, wedi codi o'r chwarter isaf yn 2009/10 i fod yn un o'r goreuon yng Nghymru yn 2010/11 (Tabl 6).

Tabl 5



Tabl 6




Mae nifer sylweddol o DP yn ymwneud â gwasanaethau plant (45 i gyd) a thra bod y darlun cyffredinol yn gymysg – gyda nifer gyfartal bron iawn o DP ar draws y 3 chwarter – mae'n galonogol nodi fod bron i 58% o'r holl DP wedi dangos gwelliant o'u cymharu â ffigyrâu 2009-10 – gydag 8 DP ymysg y gorau yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchiad o'r gwella parhaol cyn ac ar ol Arolwg yn DP gwasanaethau plant. Mae'r gwellianau yn cynnwys:

- asesiadau dechreul sy'n cynnwys gweithiwr cymdeithasol
- plant ar y gofrestr diogelu plant sydd wedi cael gweithiwr cymdeithasol (Tabl 7)
- plant sy'n derbyn gofal sydd wedi eu gwahardd o'r ysgol
- plant sydd wedi eu cofrestru gyda darparwr gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn 10 diwrnod gwaith i ddyddiad dechrau eu lleoliad - (Tabl 8),


O'r 10 DP Cynllunio, mae'r darlun yn eithaf sefydlog – mae un DP wedi symud o'r chwartel canol i'r chwartel isaf (Nifer o dai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn), ac mae un DP wedi symud o'r canol i'r chwartel uchaf (y ganran o'r holl geisiadau cynllunio eraill a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn o fewn 8 wythnos – Tabl 9). O'r 11 DP sydd gan Gwarchod y Cyhoedd, mae 5 ymysg y gorau yng Nghymru mewn perthynas ag arolygiadau Safonau Masnach, glendid bwyd, iechyd

anifeiliaid ac iechyd a diogelwch. Mae'r mwyafrif helaeth o ddangosyddion perfformiad Rheoli Gwastraff â hanes o fod yn dda yn Ynys Môn, fel y dangosir yn Nhabl 10.

Tabl 7




Tabl 8




Tabl 9

PLA/004d: Canran yr holl geisiadau cynllunio eraill wedi eu penu o fewn 8 wythnos yn ystod y flwyddyn



Tabl 10


WMT/008iii: Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr awdurdod lleol a gesglir fel ffynhonnell wastraff fiolegol wedi ei wahanu a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall




## Y Chwartel Canol

Fel a ddangosir yn Nhablau 2 a 3 (uchod), mae'r mwyafrif helaeth o ddangosyddion perfformiad y Cyngor (bron i 43%) yn y chwartel canol o ran perfformiad. Mae hyn yn golygu, ar draws yr adrannau gwasanaeth, fod 40% o DP Addysg a Thai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn y chwartel canol, tra bod 48% o rai'r Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol yn y chwartel hwn – fel a ddangosir yn Nhablau 4 (uchod). Mae'r Cyngor yn cydnabod serch hynny fod amrediad eang o fewn y chwartel hwn a bod gwahaniaeth mawr rhwng y chwartel canol uwch (Tabl 11) a'r chwartel canol is (Tabl 12), o ran y goblygiadau i Wasanaethau ac yn bwysicach na hynny i ddefnyddwyr y gwasanaethau eu hunain. Er enghraift, mae'r achosion agored lle mae plant sy'n derbyn gofal wedi cael gweithiwr cymdeithasol yn gosod Ynys Môn yn y chwartel canol er fod hyn, yn 99.44%, ar dop uchaf y chwartel ac yn well na'r cyfartaledd ar gyfer gogledd Cymru a Chymru gyfan. I'r gwrthwyneb, ar 51.23%, mae'r DP ar gyfer y ganran o gyfanswm hyd yr Hawliau Tramwy sy'n hawdd i aelodau'r cyhoedd eu defnyddio yn gosod ein perfformiad ar ochr isaf y chwartel hwn ac yn is na chyfartaledd Cymru sydd yn y chwartel uchaf o ran perfformiad gorau o 75.58%. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd edrych ar bob DP yn unigol ac yn ei gyd-destun, er mwyn pennu darlun cyflawn a chywir o'n perfformiad.

Tabl 11



**Tabl 12**




### Perfformiad y mae angen ymdrin ag ef

Fel y dywedwyd yn gynharach, mae perfformiad Cyngor Sir Ynys Môn yn y chwarter isaf wedi cynyddu rhyw ychydig o 25% yn 2009/10 i 26.3% yn 2010/11. Caiff hyn ei gymhlethu ymhellach gan y tueddiad cyffredinol at i lawr ar draws nifer o wasanaethau.

Tra bod addysg yn parhau i berfformio'n dda, yr eithriad yn hanesyddol mae'n ymddangos yw'r elfen Anghenion Addysgol Arbennig – mae canran y datganiadau terfynol o anghenion addysg arbennig a gyflwynwyd o fewn 26 wythnos gan gynnwys eithriadau yn parhau i fod yn y ddau isaf drwy Gymru, ac mae wedi dirywio ymhellach o 50% yn 2009/10 i 43% yn 2010/11 fel a ddangosir yn Nhabl 13.

**Tabl 13**


EDU/015a: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau gan gynnwys eithriadau




Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, mae'n ymddangos fod tueddiad i symud i ffwrdd oddi wrth ofal yn y gymuned tuag at ofal preswyl mwy traddodiadol ar draws yr holl grwpiau oedran. Dangosir hyn yn y data a ganlyn lle mae'r Cyngor yn y chwarterl isaf ar gyfer y raddfa o bobl hŷn (65 oed a throsodd) a gefnogwn mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed a throsodd ar 31 Mawrth (Tabl 14) yn wahanol i'r ganran o gleientiaid 65+ oed a gefnogwyd yn y gymuned yn ystod y flwyddyn (Tabl 15).

**Tabl 14**

SCA/002a: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth;


**Tabl 15**

SCA/003b: Canran y cleientiaid yn y grwpiau oedran canlynol sy'n cael cefnogaeth yn y gymuned yn ystod y flwyddyn 65+ oed





Yn y gwasanaethau i blant, ac er gwaethaf y cynnydd calonogol yn nifer y DP lle gwelwyd gwelliant yn ystod 2010-11 fel y cyfeiriwyd atynt yn gynharach, mae nifer o DP yn dal i fod yn y chwartel isaf. Yr hyn sydd hefyd yn arwyddocaol yw'r ffaith fod 4 DP yn ymneud â materion eithaf sylfaenol, fel y ganran o asesiadau dechreuol a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith (Tabl 16) a'r cyfartaledd amser a gymerwyd i gwblhau'r asesiadau craidd gofynnol a gymerodd fwy na 35 diwrnod (Tabl 17). Mae perfformiad Ynys Môn yn y pedwar DP isaf drwy Gymru (ac mewn gwirionedd y gwaethaf yng Nghymru mewn nifer o DP yn y categori hwn).

**Tabl 16**



Hefyd, mae canran y lleoliadau cyntaf ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd gyda chynllun gofal mewn lle, yn y chwartel isaf – fel ag y mae'r DP ar gyfer y ganran o bobl ifanc a arferai fod yn derbyn gofal sy'n dal i fod mewn cysylltiad â'r awdurdod yn 19 oed; y ganran o bobl ifanc a arferai fod yn derbyn gofal sy'n dal i fod mewn cysylltiad â'r awdurdod, ac y gwyddir sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn 19 oed a chanran presenoldeb disgylion sy'n derbyn gofal mewn ysgolion uwchradd tra maent dan ofal (Tabl 18). Ond fel nodwyd yn gynharach mae'r gogwydd blwyddyn ar flwyddyn o ran DP Gwasanethau plan ar i fyny.

**Tabl 17****Tabl 18**

O bryder arbennig yn y Gwasanaethau Tai, ac yn benodol mewn perthynas ag atal digartrefedd, yw'r nifer ar gyfartaledd o ddyddiau gwaith rhwng cyflwyniad digartrefedd a chyflawni dyletswyddau tuag at aelwyd yd a ganfuwyd i fod yn statudol ddigartref (Tabl 19), lle mae perfformiad yn dal i fod y gwaethaf yng Nghymru am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y ffigwr ar gyfer Ynys Môn (350 diwrnod) o'i gymharu â'r cyngor sy'n perfformio orau (42 diwrnod) a chyfartaledd Cymru (117 diwrnod). Yn yr un modd, mae ein perfformiad o ran y nifer o ddyddiau ar gyfartaledd a dreulir gan bob aelwyd ddigartref mewn llety dros dro o fath arall hefyd y gwaethaf yng Nghymru (Tabl 20), lle unwaith eto mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y perfformiwr gorau (57 diwrnod), cyfartaledd Cymru (135 diwrnod) a ffigwr Ynys Môn o 505 diwrnod. Mae'r Cyngor wedi gwneud sylwadau i Lywodraeth Cymru yn y gorffennol ar y diffiniad o'r dangosydd perfformiad penodol hwn ac mae'r mater wedi'i drafod yn faith yn ein cyfarfodydd monitro perfformiad chwarterol.


Y brif ffordd y gall y Cyngor gyflawni ei ddyletswydd yw drwy gynnig tenantiaeth ragarweiniol i gleientiaid digartref o'i stoc dai. Ond, oherwydd fod y stoc sydd ar gael bellach yn gyfyngedig, gall gymryd cyfnod sylweddol o amser cyn y bydd cleient digartref yn cyrraedd ar ben y rhestr aros i fod yn gymwys am y cynnig hwn. Er gwaethaf hynny, mae'r Cyngor wedi sicrhau bod cleientiaid digartref yn cael llety dros dro addas drwy ddatblygu 'cynllun prydlesu sector preifat' llwyddiannus dros ben. Dan y cynllun hwn, mae'r Cyngor yn prydlesu eiddo oddi ar landlordiaid preifat ac yna'n eu rhentu i gleientiaid digartref. Yn ôl y diffiniad cyfredol o'r dangosydd perfformiad hwn, nid yw'r cleientiaid hyn wedi eu cynnwys.

Yn y sector Adnewyddu'r Sector Preifat, mae perfformiad i'w weld yn dirywio. Mae canran yr anheddu sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill, ac a ddychwelwyd i feddiant yn ystod y flwyddyn drwy gamau gweithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol, wedi symud o'r chwartel canol i'r chwartel isaf (Tabl 21).


O ran yr agenda effeithlonwydd ynni, mae dirywiad wedi bod o ran gostwng canran y gollyngiadau carbon deuocsid yn y stoc adeiladau cyhoeddus annomestig ar gyfer Ynys Môn lle mae safle'r awdurdod wedi symud o'r chwartel canol i'r chwartel isaf (Tabl 22).

**Tabl 19**

HHA/002: Cyfartaledd nifer y dyddiau gwaith rhwng cyflwyno person fel person digartref i'r awdurdod a chyflawni dyletswydd yr awdurdod at aelwyd ydd a geir yn statudol ddigartref


**Tabl 20**

HHA/017b: Y nifer o ddiwrnodau, ar gyfartaledd, gwnaeth cartrefi digartref dreulio mewn mathau eraill o lety dros dro




**Tabl 21**

PSR/004: Canran yr anheddua sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddianwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol.


**Tabl 22**

WMT/008i: Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr awdurdod lleol a baratoir i'w ailddefnyddio



Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r Cyngor wedi perfformio'n dda a hynny'n gyson dros y blynnyddoedd diwethaf o ran ei ymagwedd tuag at y targedau rheoli gwastraff a'i berfformiad yn erbyn y rheiny – gan arwain y blaen yn y maes hwn am nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn dal i fod yn wir yn achos y mwyafrif helaeth o'r targedau rheoli gwastraff, a dyna pam mae'n anarferol iawn gweld un DP, sef canran y gwastraff bwrdeistrefol a gasglwyd gan yr awdurdod lleol ar gyfer ei aildefnyddio, o fewn y chwarterl isaf am 2010-11.


**Tabl 23**




Mae'r Cyngor yn perfformio'n ffafriol o ran 'strydwedd', ond mae canran y priffyrd a'r tir perthnasol a arolygwyd sydd o safon uchel neu dderbyniol o ran glendid yn y chwarterl isaf (Tabl 23). Mae canran yr oedolion 60+ oed sydd â thocyn mantais bws yn eithaf isel ar Ynys Môn (Tabl 24) yn unol â llawer iawn o siroedd eraill mwy gwledig yng Nghymru.

**Tabl 24**


THS/007: Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws.

**Tabl 25**

PLA/006: Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.



**Tabl 26**




Mae Dangosyddion Perfformiad Cynllunio yn dal i fod heb newid fawr ddim o ran eu safleoedd chwarterl, ac eithrio'r nifer o unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn, sydd wedi llithro i'r chwarterl isaf (Tabl 25). Mae canran y ceisiadau cynllunio mawr a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn o fewn 13 wythnos hefyd yn y chwarterl isaf o ran perfformiad, fel ag y mae'r ganran o achosion gorfodaeth a ddatryswyd yn ystod y flwyddyn o fewn 12 wythnos i'w derbyn (Tabl 26). O ran rheoli adeiladu, mae canran y ceisiadau 'cynllun llawn' rheoli adeiladu a wiriwyd o fewn 15 diwrnod gwaith yn ystod y flwyddyn (Tabl 27) hefyd yn gosod y Cyngor yn y chwarterl isaf o ran perfformiad.


Mae nifer yr ymweliadau â Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, fesul 1,000 o'r boblogaeth, hefyd yn y chwarterl isaf (Tabl 29), fel ag y mae'r ganran o geisiadau am ddefnyddiau llyfrgell a ddarparwyd o fewn 7 diwrnod calendr.

**Tabl 27**

BCT/004: Canran y ceisiadau 'cynllun llawn' rheoli adeiladu wedi eu gwirio o fewn 15 diwrnod gwaith yn ystod y flwyddyn

**Tabl 28**

LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth.



Ni all y dadansoddiad uchod ynghyd â'r dadansoddiad a ddarperir yn y graffigwaith unigol, edrych yn fanwl ar bob un o'r 148 DP sy'n sail i'r dadansoddiad hwn, ond mae'n parhau i ddangos darlun eithaf cadarnhaol o berfformiad y Cyngor. Ond, mae'n amlwg am y tro cyntaf ers rhai blynnyddoedd fod y tueddiad cyffredinol at i lawr mewn nifer o feysydd allweddol sydd wedi perfformio'n dda yn y gorffennol. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen i'r Cyngor ei gadw mewn cof ac ymdrin ag ef yn gadarnhaol yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Yn ogystal â'r wybodaeth ynglŷn â pherfformiad y Cyngor yn erbyn ei DP statudol a ddarperir uchod (ac yn Atodiad ??), mae dadansoddiad mewnol o berfformiad y Cyngor yn erbyn trefniadau bwriedig yn y Cynlluniau Darparu Gwasanaeth yn dangos y darlun eithaf cadarnhaol a ganlyn o berfformiad cyffredinol (Tabl 30). Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau hyn yn dangos ein bod fel Cyngor Sir wedi cyflawni tua 77% o'r trefniadau bwriedig am y flwyddyn ariannol 2010/11 ac mae'n amlyu o fewn y llwyddiant hwnnw y buddiannau gweladwy i'n dinasyddion sy'n amrywio o ...

- Lansio'n swyddogol y Rhaglen Ynys Ynni gyda'r Dirprwy Brif Weinidog
- Gwella isadeiledd 5 lleoliad ar yr arfordir
- Sicrhau tua £3.1 miliwn er mwyn galluogi mentrau o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig.
- Cynyddu gwerth cynnyrch twristiaeth yr Ynys o 6%
- Croesawu 11 o longau mordeithio i Borthladd Ynys Môn (a gynhyrchodd dros £500k i'r economi lleol)
- Cynorthwyo cyfanswm o 52 o fusnesau drwy nawdd Cydgyfeiriant UE
- Cydweithio i sicrhau bod 228 o bobl leol wedi defnyddio'r 'Gronfa Swyddi i'r Dyfodol' er mwyn cael profiad gwaith.

**Tabl 30**

	Gwyrdd	Melyn	Coch	Cyfanswm
<b>Cyngor Sir Ynys Môn</b>	462	90	51	603
	76.62%	14.93%	8.46%	100%

Mae gan y Cyngor erbyn hyn y dulliau angenrheidiol mewn lle i fonitro ac ymdrin â'i berfformiad ar draws yr holl wasanaethau ac yn gorfforaethol. Yn ogystal â'r cyfarfod monitro Chwarterol sy'n edrych yn fanwl ar berfformiad yn erbyn y Cynllun Busnes

Corfforaethol a'r Cynlluniau Darparu Gwasanaeth (gan gynnwys dangosyddion perfformiad), mae'r Bwrdd Comisiynwyr, y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol a'r Pwyllgor Craffu yn darparu sicrwydd pellach bod unrhyw faterion yn cael eu canfod a'u trin a bod unrhyw risgiau dilynol yn dod yn rhan o'r Rhagleni Gwaith Corfforaethol a'r Cynlluniau Darparu Gwasanaeth diwygiedig.

DRAFT

## Cytundeb Canlyniadau

Y flwyddyn yma, 2010-11, oedd y flwyddyn gyntaf o rhaglen tair blynedd ar gyfer cyflawni ein Cytundeb Canlyniadau (CC) arwyddwyd rhwng y Cynor a Llywodraeth Cymru (LIC). Cyflwynwyd y Cytundeb Canlyniadau gan LIC i gymeeryd lle y Cytundebau Gwella ddaeth i ben yn mis Mawrth 2010. Bydd y cytundeb yn berthnasol o'r 1 Ebrill 2010 i 31 Mawrth 2013. Yn gydnaws a hyn, bydd taliad grant y Cytundeb Canlyniad yn cymeryd lle y grant Cytundebau Gwella ac mae LIC wedi nodi mai taliad pro-rata fyd hwn yn seiliedig ar lwyddiant yn erbyn gwireddu canlyniadau. Mae'r grant llawn werth oddeutu £743M yn flynyddol os yn llwyddo i weithredu a cyrredig y mesuriadau perthnasolol dan y deg Cytundeb Canlyniad.

Yn seiliedig ar ein hunan-asesiad a thrafodaethau cychwynol gyda LIC ar ddiwedd blwyddyn 1 rydym yn credu ein bod yn rhwng 75% a 100% o'r dyraniad grant (disgwyl cadarnhad LIC pan mae'r cynllun hwn yn cael ei ysgrifennu). Er ein bod wedi cyflawni rhan helaeth ein canlyniadau a'n targedau ar draws yr holl CC, mai rhai diffygion sylwedol yn golygu **nad ydym** o bosib yn casglu'r pwyntiau sydd ei angen ar graddfa'r grant i dderbyn 100% o'r grant, fel mae'n hunan-asesiad isod yn dangos. Ar amser rhoi'r cynllun hwn at ei gilydd nid yw'r Cyngor yn gwybod canlyniadau yr asesiad ffurfiol na'r dyraniad grant.

Cytundeb Canlyniadau	Camau a Bennwyd	Camau a Gyflawnwyd	Mesurau a Bennwyd	Mesurau a Gyflawnwyd
CC1	11	11	14	8
<b>Thema LICC: <u>Bywyd Hirach o Well Ansawdd a Chanlyniadau Tecach i Bawb</u></b>				
<b>Blaenoriaeth CSYM:</b> Gwell Iechyd trwy gydol oes				
<b>Hunanasesiad:</b> Gellir ystyried bod y canlyniad hwn yn <b>llwyddiannus</b> , oherwydd rydym, i raddau sylwedol, wedi cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ac mae mwy o dystiolaeth ein bod wedi llwyddo na'n bod yn methu. Er nad ydym wedi cyflawni'r cyfan o'r targedau, gellir ystyried y prif dargedau na fu modd eu cyrraedd fel diffygion bychan: mae'r diffyg mewn perfformiad yn rhy fychan i ni fod wedi'i ragweld yn rhesymol wrth bennu'r targed. Bu cydweithio'n llwyddiannus o ran cyflawni'r canlyniadau hyn.				
<b>Prif Ddiffyg(ion):</b> Un mater penodol y mae angen cyfeirio ato yw sesiynau nofio am ddim y Gwasanaethau Hamdden (nifer y sesiynau nofio - y bobl ifanc fynychodd y sesiynau achlysuol nofio am ddim). Roedd y targed a bennwyd yn seiliedig ar gamglandriad o'r targed gwreiddiol a oedd yn seiliedig ar gynnydd incrementol o waelodlin blwyddyn lawn 2009-10, ond heb gymryd i ystyriaeth ganllawiau LICC ynghylch darpariaeth ostyngol a gyhoeddwyd yn Ebrill 2010. Os ydym yn defnyddio'r				

targedau pro rata, byddai gennym darged o 4,311 ac yn erbyn y targed hwnnw cyflawnwyd 5,219 .

Cytundeb Canlyniadau	Camau a Bennwyd	Camau a Gyflawnwyd	Mesurau a Bennwyd	Mesurau a Gyflawnwyd
CC2	4	3 (cynnydd digonol gydag 1)	10	6

#### **Thema LICC: Mae Gofal Cymdeithasol Da yn Golygu bod Pobl yn Mwynhau Bywyd o Ansawdd Gwell**

**Blaenoriaeth CSYM:** Darparu cefnogaeth fel y gall pobl fyw'n annibynnol

**Hunanasesiad:** Rydym yn cyflwyno'r CC hwn fel un a oedd yn **rhannol llwyddiannus**. Rydym foddy bynnag wedi cwblhau gweithredu ac rydym yn hyderus y bydd y strwythur newydd sydd bellach wedi ei sefydlu yn fod i ni gyflawni ein targedau ar gyfer eleni. Bu cydweithio'n llwyddiannus o ran cwblhau'r camau gweithredu a nodwyd.

**Prif Ddifyg(ion): Gwasanaethau Cymdeithasol - Telefal.** Nid ydym wedi cyflawni'r cyfan o'h canlyniadau o ran cyflawni targedau ar gyfer pob Haen o Ddefnyddwyr Gwasanaethau Telefal yn bennaf oherwydd materion staffio/capasiti yn sgil salwch/absenoldeb mamolaeth. Darparwyd gwasanaeth wrth gefn er mwyn srichau parhad busnes Telefal, ond nid oedd capaciti ar gyfer hyrwyddo'r gwasanaeth yn effeithiol er mwyn ei yrru yn ei flaen. Mae Tîm Telefal penodol wedi cael ei sefydlu ers 01/03/2011 a bydd tîm yn gweithredu ac yn gyrru'r rhaglen Telefal yma ar Ynys Môn (Gweler Atodiad 1)

Cytundeb Canlyniadau	Camau a Bennwyd	Camau a Gyflawnwyd	Mesurau a Bennwyd	Mesurau a Gyflawnwyd
CC3	9	9	4	3

#### **Thema LICC: Mae Economi Gref a Llewyrchus o Gymorth i Leihau Tlodi**

**Blaenoriaeth CSYM:** Llai o Bobl yn Byw mewn Tlodi

**Hunanasesiad:** Gellir ystyried bod y canlyniad hwn yn **hollo llwyddiannus**, oherwydd rydym i raddau helaeth wedi cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ac mae mwy o dystiolaeth ein bod wedi llwyddo na wedi methu. Bu'r cydweithio ar y canlyniadau hyn yn llwyddiannus.

**Prif Ddifyg(ion): Manteision.** Ni fu modd i ni adrodd ar un mesur mewn perthynas â Budd-daliadau (y % o gyfeiriadau llwyddiannus a arweiniodd at gais) oherwydd methiant ar ran Partner. Mae penderfyniad polisi a wnaed gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i roi'r gorau i ddarparu data yn golygu na fydd modd i'r Cyngor adrodd ar y wybodaeth yr oedd ei hangen dan y Cytundeb Canlyniadau. Nid oedd y Cyngor yn gwybod am y penderfyniad polisi cyn gweithredu hyn. Rydym bellach wedi aildrafod targedau mwy perthnasol ar gyfer blynnyddoedd 2 a 3 gyda LLC.

Cytundeb Canlyniadau	Camau a Bennwyd	Camau a Gyflawnwyd	Mesurau a Bennwyd	Mesurau a Gyflawnwyd
CC4	6	5	7	6 (+1 diffyg bychan)

**Thema LICC:** Plant a Phobl Ifanc yn Tyfu i Fyny i fod yn Ddinas-yddion Gweithgar a Sicrhau'r Safonau Uchaf Posibl o ran Lles

**Blaenoriaeth CSYM:** Bod ag Amrediad Cynhwysfawr o Gyfleoedd Addysg a Dysgu

**Hunanasesiad:** Yn ein barn ni, bu'r CC hwn yn **hollo lwyddiannus** ac rydym wedi cyflawni i raddau helaeth y canlyniadau a fwriadwyd ac mae mwy o dystiolaeth ein bod wedi llwyddo na wedi methu. Gellir priodoli rhywfaint o'r diffyg i fethiant ar ran Partner.

**Prif Ddifyg(ion) Hamdden:** Roedd diffyg yn nifer y sesiynau symudol gyda phobl ifanc mewn ardaloedd a dargedwyd fel rhan o ymgyrch i sicrhau bod y gwasanaeth yn gynhwysol, yn hyrwyddo cyfleon cyfartal ac yn caniatáu i bobl ifanc asesu / gwneud sylwadau ar strategaethau gweithlu ac ar wasanaethau a ddarperir ar eu cyfer. Cadarnhawyd bod hyn wedi digwydd oherwydd nad oedd partner o'r Sector Gwirfoddol wedi gallu darparu adnoddau am gyfnod. Nodyn: Bydd hyn yn gymwys fel un neu ddau o'r isod o ganllawiau LIC:

- *Amgylchiadau Eithriadol:* mae'r diffyg o ran perfformiad i'w briodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddylanwadau allanol nad oedd modd eu rhagweld na'u rheoli.
- *Methiant gan Bartner:* mae'r diffyg yn adlewyrchu tanberfformiad partner, ac mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau i ddeall hynny, a os oes modd i leddfu ei effaith.

Cytundeb Canlyniadau	Camau a Bennwyd	Camau a Gyflawnwyd	Mesurau a Bennwyd	Mesurau a Gyflawnwyd
CC5	6	6	10	Dim yn hysbys hyd yma

**Thema LICC:** Bod gan Bobl yr Addysg a'r Sgiliau i Fyw Bywydau Ffyniannus a Bodlon

## Blaenoriaeth CSYM: Gwella Cyraeddiadau Addysgol

**Hunanasesiad:** Rydym wedi cyflawni'n llwyddiannus y camau a nodwyd gennym ac mae'r dystiolaeth o fesurau interim yn dangos yn glir bod y dystiolaeth o lwyddiant yn llawer mwy na'r dystiolaeth o fethiant. Fodd bynnag, ni fydd y cyfan o'r wybodaeth ar gael tan yn hwyrach yn y flwyddyn (Blwyddyn Academaidd). Mae'r perfformiad hyd yma yn galonogol.

**Prif Ddiffyg(ion):** dim hyd yma – yn disgwyd canlyniadau ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

Cytundeb Canlyniadau	Camau a Bennwyd	Camau a Gyflawnwyd	Mesurau a Bennwyd	Mesurau a Gyflawnwyd
CCA6	8	7	7	5

**Thema LICC:** **Bod Cymunedau yn Ffynnu ac yn Ddiogel a bod Ganddynt Fynediad i Dai Da a Chludiant Cynaliadwy**

## Blaenoriaeth CSYM: Llai o Ddigartrefedd

**Hunanasesiad:** Rydym yn ystyried bod y CC hwn yn llwyddiannus oherwydd ein bod i bob pwrras wedi cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ac mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod dystiolaeth o lwyddiant yn llawer mwy na'r dystiolaeth o fethiant. Cydweithio wedi llwyddo i sicrhau'r canlyniad hwn.

**Prif Ddiffyg(ion): Tai-** Nid ydym wedi cwrdd â'n holl dargedau, ond gellir priodoli'r methiant i gwrdd â thargedau i fethiant gan barther, ac yn arbennig lle byddai'r Panel Tai Fforddiadwy yn gweithio gyda'n partneriaid gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Ymgynghorwyr Morgeisi a chwmnïau Gwerthu Tai Lleol i alluogi pobl i brynu eu cartrefi eu hunain trwy rannu pryniant ac ati. Ni wariwyd y gyllideb o £332,000 a oedd ar gael yn 2010/11 oherwydd cymhlethdodau o ran materion cyfreithiol a fframwaith ariannol yr oedd raid ei sefydlu cyn cynnig cynlluniau. Bydd y swm hwn yn cael ei gyfuno gyda'r arian fydd ar gael ar gyfer eleni ( £317,000 i roi cyfanswm o £649,000 ar gyfer 2011/12. Bydd yr arian hwn yn cael ei wario yn ystod 2011-2012. (Gweler Atodiad 1)

Cytundeb Canlyniadau	Camau a Bennwyd	Camau a Gyflawnwyd	Mesurau a Bennwyd	Mesurau a Gyflawnwyd
CC7	6	6	7	6 (+1 diffyg bychan)

**Thema LICC:** **Bod Cymru yn Gymdeithas sy'n Defnyddio Ynni'n Effeithiol yn Gymdeithas Carbon Isel ac yn Gymdeithas Gwastraff Isel**

## Blaenoriaeth CSYM: Effeithlonrwydd Gwastraff ac Adnoddau Naturiol

**Hunanasesiad:** Rydym yn ystyried bod y CC wedi bod yn gwbl lwyddiannus oherwydd ein bod wedi cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ac mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod y dystiolaeth o lwyddiant yn llawer mwy na'r dystiolaeth o fethiant. Mae'r mesurau yr adroddwyd arnynt wedi'u cyflawni'n sylweddol a lle rydym wedi methu targedau roeddem bron a'u cyflawni a gellir eu hystyried fel *Diffyg Bychan*: mae'r diffyg yn y perfformiad yn rhy fach i fod wedi medru ei ragweld yn rhesymol wrth bennu'r targed.

**Prif Ddiffyg(ion): Rheoli Gwastraff** - Bu diffyg bychan o 0.25% yn y ganran o wastraff y rhagwelwyd y byddai'n cael ei ailgylchu. Gellir priodoli hyn i'r ffaith bod Ynys Môn yn cynhyrchu mwy o wastraff ar y cyfan nag a ragwelwyd yn wreiddiol - hwn oedd y cynnydd cyntaf yn y llwyth gwastraff ers 2006/2007. Gellir priodoli'r diffyg hefyd i'r tywydd garw yn ystod Rhagfyr 2010 a gafodd effaith ar y gwasanaeth ailgylchu a gallu deiliaid i gymryd rhan yn dddo, yn ogystal â'r ffaith nad oedd canolfannau ailgylchu ar gael i'r cyhoedd. Oherwydd y tywydd garw a'r anawsterau yn sgil hynny bu gostyngiad o 9% yn y llwyth gwastraff a ailgylchwyd dros y 3ydd Chwarter yn 2010/11 o gymharu â'r un cyfnod yn ystod 2009/10.

Cytundeb Canlyniadau	Camau a Bennwyd	Camau a Gyflawnwyd	Mesurau a Bennwyd	Mesurau a Gyflawnwyd
CC8	5	5	9	7

### **Thema LICC: Bod yr Amgylchedd yn cael ei Diogelu ac yn Gynaliadwy**

**Blaenoriaeth CSYM:** Gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol a'r mwynhad ohono

**Hunanasesiad: Cwbl Lwyddiannus.** Rydym wedi cwrdd â'r canlyniadau a fwriadwyd ac mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod dystiolaeth o lwyddiant yn llawer uwch na'r dystiolaeth o fethiant.

**Prif Ddiffyg(ion): Hamdden** - Sicrhau bod mwy o bobl yn cymryd rhan / cael mynediad i gyfleo gweithgaredd corfforol yn amgylchedd naturiol unigryw Môn. Ni chyflawnwyd y targed o ran sefydlu clybiau oherwydd mater a oedd yn ymwned â chymwysterau gwirfoddolwyr. Gallwn briodoli hynny'n rhesymol i amgylchiadau eithriadol. Mae'r diffyg yn y perfformiad i'w

briodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddylanwadau allanol nad oedd modd eu rhagweld na'u rheoli.

Cytundeb Canlyniadau	Camau a Bennwyd	Camau a Gyflawnwyd	Mesurau a Bennwyd	Mesurau a Gyflawnwyd
CC9	5	5	6	6

#### **Thema LICC: Bod ein Hiaith, ein Diwylliant a'n Treftadaeth yn Ffynnu**

**Blaenoriaeth CSYM:** Bod mwy o Bobl yn Mynychu ac yn Cymryd Rhan mewn Gweithgareddau Celfyddydol a Diwylliannol a'r Amgylchedd Hanesyddol

**Hunanasesiad: Cwbl Lwyddiannus** Rydym wedi cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ac mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod y dystiolaeth o lwyddiant yn llawer uwch na'r dystiolaeth o fethiant.

**Prif Ddifyg(ion):** dim

Cytundeb Canlyniadau	Camau a Bennwyd	Camau a Gyflawnwyd	Mesurau a Bennwyd	Mesurau a Gyflawnwyd
CC10	11	11	4	3

#### **Thema LICC: Bod Gwasanaethau Cyhoeddus yn Effeithlon ac yn Darparu Gwerth am Arian**

**Blaenoriaeth CSYM:** Gwell Trefniadau Rheoli Asedau

**Hunanasesiad:**

Rydym yn ystyried bod y CC10 wedi **llwyddo** oherwydd ein bod wedi cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ac mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod y dystiolaeth o lwyddiant yn llawer mwy na'r dystiolaeth o fethiant.

**Prif Ddifyg(ion): Eiddo** - Ni chyflawnwyd arbedion yn erbyn costau cynnal o werthiannau a throsglwyddo asedau oherwydd nid yw 2 ysgol wedi'u gwerthu oherwydd bod grwpiau cymunedol wedi dangos diddordeb mewn trosglwyddo'r asedau iddynt hwy ac mae hyn wedi dal y broses yn ôl (yn parhau).

<b>Yr Holl Gytundebau Canlyniadau</b>	<b>Yr Holl Gamau a Bennwyd</b>	<b>Yr Holl Gamau a Gyflawnwyd</b>	<b>Yr Holl Fesurau a Bennwyd</b>	<b>Yr Holl Fesurau a Gyflawnwyd</b>
<b>Total</b>	71	68	78	50 (heb gynnwys diffyg bychan a 10 arall lle disgwyli'r canlyniadau)

## Perfformiad Ariannol 2010/11

### ADOLYGIAD O'R FLWYDDYN

Roedd cyllideb refeniw'r Cyngor am 2010-11 yn adlewyrchu arbedion effeithlonwyd a oedd yn effeithio ar yr holl wasanaethau, adeiladu capaciti'r gwasanaethau canolog a rhai datblygiadau i wasanaethau. Cyllidwyd y gyllideb trwy grantiau'r Cynulliad Cenedlaethol a 4.5% o gynnydd yn y Dreth Gyngor.

Yn ystod y flwyddyn, daeth yn amlwg fod raid wrth doriadau sylweddol iawn o 2011-12 ymlaen a dechreuodd y gwasanaethau baratoi ar eu cyfer trwy nifer o brosiectau dan y faner Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy.

Roedd y perfformiad ar y gyllideb refeniw yn galonogol: at ei gilydd roedd tanwariant yn y cyllidebau corfforaethol a gwnaed arbedion sylweddol ar gaffael contractau cludiant. Ond cynhyrchodd y Dreth Gyngor lai na'r disgwyl oherwydd na chodwyd tai newydd ar y raddfa a dybiwyd. Roedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau yn gwario'n ddiogel tu mewn i'w cyllidebau. Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol daliwyd ymlaen gyda'r cynnydd da yn y gwaith rheoli cyllid a chan wario £1.2 miliwn yn llai na'r gyllideb flynyddol a hynny'n cael ei gyflawni trwy gadw'r gyllideb dan reolaeth gaeth a hefyd trwy weithredu'n brydlon ar brosiectau dan y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy.

Dan y gyllideb Addysg gwelwyd tanwariant £0.8 miliwn ar ôl sicrhau rheolaeth ar wariant integreiddio disgyblion gydag anghenion dysgu arbennig yn yr ysgolion prif ffrwd a chyflawnwyd arbedion dan sawl cyllideb.

Yn ystod y flwyddyn, roedd gwariant net yr ysgolion wedi gostwng eu cronfeydd wrth gefn (fel cyfanswm) i lefel £2.2 miliwn – gostyngiad £0.9 miliwn. Cyfyngir y defnydd y gellir ei wneud o'r cronfeydd wrth gefn hyn i'r ysgolion unigol ac mae gwahaniaeth rhwng sefyllfaoedd yr ysgolion. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd gan naw o ysgolion ddifyg ariannol ond mae sawl ysgol arall yn disgwyl diffygion mewn blynnyddoedd i ddod.

O ganlyniad i arbedion disgwyliedig £2.2m ar ddiwedd y trydydd chwarter yn rhoi hwb tu draw i'r lefel angenrheidiol yn y balansau cyffredinol, penderfynwyd bod modd defnyddio hyd at £2.5m yn 2011-12 i gwrrd â chostau torri gwasanaeth. Ym Mawrth 2011 pennwyd cyllideb y Cyngor a rhyddhawyd gwybodaeth am raglen ddiswyddo; yn sgil hynny mae yng nghyfrifon 2010-11 warianta darpariaeth o £1.0m tuag at gostau torri gwasanaeth.

Y canlyniad terfynol am y flwyddyn yw'r cynnydd o £1.0m yn y Balansau Cyffredinol gan eu codi i £6.8m a chynnydd o £0.6m yn y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd – y rheini'n codi i £12.9m.

## SEFYLLFA ARIANNOL AR 31 MAWRTH 2011

Mae gwerth net yr Awdurdod yn y Fantolen wedi cynyddu o ragor na £106m dros y flwyddyn a hynny i'w briodoli i ostyngiad £89.3m yn rhwymedigaeth bensiwn net y Cyngor a chynnydd o £18.6m yng ngwerth yr asedau sefydlog. Mae'r datganiad yn dangos amcangyfrif i'r rhwymedigaeth net o £46.6 miliwn yng nghyswilt pensiynau, sy'n fwy na'r gostyngiad yn 2009-10. Mae'r amcangyfrif hwn yn dibynnau'n drwm ar y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd, ac roedd y gostyngiad dros y flwyddyn i'w briodoli'n bennaf i ddychweliadau positif ar asedion ac i ostyngiad yn y disgwyliadau chwyddiant dros dymor hir, a hefyd i newid y mynegai chwyddiant a ddefnyddir iragamcanu beth fydd y codiadau pensiwn.

Yr asesiad gorau o gadernid ariannol yw ystyried i ba raddau y mae'r awdurdod wedi darparu ar gyfer rhwymedigaethau hysbys ac ystyried hefyd faint o gronfeydd wrth gefn sydd ar gael fel diogelwch yn erbyn risgiau eraill. Mae'r Cyngor wedi darparu ar gyfer rhwymedigaethau hysbys ac wedi sefydlu cronfeydd wrth gefn pryd bynnag y mae hynny'n ofyn statudol, pan fo cynlluniau'r Cyngor wedi clustnodi hynny neu pan fo'n ddoeth i bwrrpas diogelu yn erbyn risg neu ansicrwydd. Y bwriad ar y cychwyn oedd peidio â gwneud defnydd sylweddol o'r balansau yn ystod y flwyddyn er bod y Pwyllgor Gwaith wedi rhoddi ei ganiatâd i ddefnyddio hyd at £0.6m o'r balansau i gyllido costau newid, gan gynnwys costau torri gwasanaeth yn 2010/11. Mewn gwirionedd rhyw £0.4m ohono a ddefnyddiwyd ynghyd â £1.0 miliwn a awdurdodwyd yng nghyswilt cyllideb 2011-12. Roedd arbedion y flwyddyn yn £2.8 miliwn ac ar ei diwedd roedd £6.8m yn y balansau cyffredinol. Rhoddwyd o'r neilltu £2.5 miliwn ar gyfer costau gyda Statws Sengl a chydag Arfarnu Swyddi, ond nid amcangyfrif yw hwn i unrhyw rwymedigaeth wirioneddol. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd cronfeydd wrth gefn yr ysgolion yn £2.2 miliwn, balans y Cyfrif Refeniw Tai yn £0.3 miliwn a'r Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig yn £12.9 miliwn. Mae cyfanswm y cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig wedi cynyddu a hynny'n bennaf oherwydd y gronfa wrth gefn i yswiriant a'r gronfa wrth gefn i'r gwasanaethau. Ond yn erbyn y rhain, rhaid gosod y gostyngiadau yn y gronfa cyllido cyfalaf wrth gefn, y gronfa wrth gefn i reoli perfformiad a chrafangu'n ôl y cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig i gefnogi'r gyllideb.

Mae cadernid ariannol yr Awdurdod yn ddigonol er gwaethaf y dirywiad yng nghyflwr cyllid cyhoeddus. Yr hyn a wna'r patrwm tanwario cyffredinol yw dangos inni pa mor ddoeth fu'r deiliaid cyllidebau a'u parodrwydd i weithredu ar arbedion cyn gynted ag y gwelwyd potensial. Wrth fonitro'r Gyllideb yn ystod y flwyddyn roedd modd ystyried y gwelliant net wrth lunio cyllideb y flwyddyn ddilynol, a hynny'n tynnu pwysau oddi ar yr arbedion angenrheidiol yn 2011-12 ac ymlaen. Fodd bynnag mae'r rhagolygon ar gyfer gwariant cyhoeddus yn dal i fod yn bur dywyll.

## Cydweithio

Yn ystod 2010/11, mae'r Cyngor Sir wedi bod wrthi'n egniol yn datblygu mentrau cydweithredol dan Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol y Sector Preifat. Mae'r ffocws ar gydweithio am gynyddu a'r newidiadau am gyflymu yn ystod 2011/12 a hynny yn erbyn cefndir o ostyngiad mewn cyllidebau, yr angen am fwy o arbedion a chyflawni rhaglen ad-drefnu'r sector cyhoeddus dan arweiniad Llywodraeth Cymru. Ar draws y rhanbarth, sefydlwyd pedwar bwrdd rhaglen i ddatblygu modelau cydweithio mewn perthynas ag:

- Addysg
- Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Rheoleiddiol
- Gwasanaethau Cefnogol
- 

Yn ystod 2010/11, bu'r Cyngor yn weithgar o ran datblygu achosion busnes ar gyfer modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau ar lefel ranbarthol ac isranbarthol. Mae'r meysydd y bu'n gweithio arnynt yn cynnwys gwella ysgolion a theleofal a'r tîm polisi cynllunio ar y cyd gyda Gwynedd. Yn ogystal, rhoddwyd sylw yn ystod 2010/11 i ddatblygu modelau newydd ar gyfer mireinio partneriaethau allweddol ar draws y rhanbarth dan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol ac mae trefniadau isranbarthol gyda Chyngor Gwynedd wrthi'n cael eu datblygu yn ystod 2011/12.

## Sicrhau cydraddoldeb a chynaliadwyedd

Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i gydraddoldeb a hynny wrth ddarparu gwasanaethau ac yn ei rôl fel cyflogwr pwysig.

Mae fframwaith corfforaethol wrthi'n cael ei ddatblygu yn awr er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn cwrdd â'i gyfrifoldebau statudol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae Grŵp Cydraddoldebau Corfforaethol wedi cael ei sefydlu i symud y gwaith hwn yn ei flaen ac i hyrwyddo, integreiddio a sicrhau cynnydd o ran materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gyson ar draws yr holl gyfadranau a gwasanaethau.

Mae'r Cyngor hefyd yn rhan o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru sy'n cynnwys y chwe awdurdod lleol, Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Gwasanaeth Ambiwlans. Ar hyn o bryd, mae'r Rhwydwaith wrthi'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu amcanion cydraddoldeb ar y cyd ar gyfer Gogledd Cymru.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd datblygiad cynaliadwy yn ei raglen waith strategol ar gyfer 2010/11 a chyfraniad y prif feysydd rhaglen, ee Ynys Ynni i hyrwyddo cyfleoedd busnes a photensial cyflogaeth. Caiff datblygiad cynaliadwy sylw yn y cytundeb canlyniadau rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru a cheir dadansoddiad o berfformiad ar dudalennau\_\_\_\_\_. Mae cefnogi cymunedau cynaliadwy yn un o amcanion allweddol y Cyngor. Ceir crynodeb o'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor dan yr amcan hwn ar dudalennau\_\_\_\_\_.

Yn y cyd-destun ehangach, mae'r Cyngor yn cydnabod y sialensiau sydd ynghlwm â rhoi sylw i faterion newid hinsawdd. Yn ystod rhan olaf 2010/11, cychwynnwyd gwaith ar brosiect sgopio i roi sylw i newid hinsawdd a materion cysylltiedig. Mae bwrdd rhaglen arbennig wedi cael ei sefydlu yn awr i symud ymlaen gyda'r gwaith hwn ac i adrodd yn 2012 i Lywodraeth Cymru ar faterion newid hinsawdd yn unol â Deddf Newid Hinsawdd 2008.

## Mynd i'r Afael â'n Hamcanion Gwella ar gyfer 2010/11

Yn ein Cynllun Gwella sy'n 'edrych ymlaen' ([Cynllun Busnes Corfforaethol 2010/11](#)) a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2010, nodwyd nifer o gamau gweithredu gennym er mwyn cyflawni ein rhaglen uchelgeisiol o amcanion gwella. Mae'r tudalennau a ganlyn yn darparu amlinelliad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu hyn yn 2010/11. Mae'r camau gweithredu hyn yn parhau i fod yn flaenorriaethau i'r Cyngor eleni ac maent yn ffurfio rhan o'r blaenorriaethau gwella yn ein Cynllun Busnes Corfforaethol 2011/12.

Blaenorriaeth Strategol 1 – Gwella enw'r Cyngor a'r Ynys				
Ein blaenorriaethau gwella 2010/11 – Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud.	Cyfrifoldeb Arweiniol	Amserlen neu Garreg Filltir	Yr hyn a wnaethom Hyd at Fawrth 2011	Sylwadau Eglurhaol Ychwanegol
<b>Darparu prosiect arwain ac ymgysylltu â'r gymuned, gan ganolbwytio ar:</b>				
Fframwaith ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned - mae hyn hefyd yn rhan o waith y Bwrdd Gwasanaeth Lleol (BGLI)	Pennaeth Gwasanaeth – Polisi	Hydref 2010	<p>Fframwaith ymgysylltu wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 5/10/10 a chyflwynwyd adroddiad cynnydd i'r Grŵp Llywio Adferiad (20/01/11).</p> <p>Yr adroddiad gan ymgynghorwyr fel rhan o gytundeb cyflawni'r BGLI wedi'i aildrefnu ar gyfer Mawrth 2011</p>	Mae cynllun gwaith yn cael ei yrru yn ei flaen mewn cydweithrediad â'r Comisiynydd perthnasol.
Diweddarur strategaeth gymunedol er mwyn canolbwytio ar anghenion o ran lles yr ardal yn y dyfodol	Pennaeth Gwasanaeth – Polisi	Ymgynghoriad wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2011.	Cyflwynwyd adroddiad cynnydd i'r BGLI ar 9/12/10. Grŵp Tasg a Gorffen wedi'i sefydlu gan y BGLI i yrru gwaith ar y cynllun yn flaen. Cyflwynwyd adroddiad ar yr allbynnau i'r BGLI ar 24/3/11.	Trefnwyd i gynnal rhagor o weithdai gyda sefydliadau sy'n bartneriaid yn ystod chwarter 1 a 2 o 2011-12 i lywio'r gwaith o ddrafftio dogfen ymgynghori.

Adolygu strategaeth gyfathrebu'r Cyngor	Pennaeth Gwasanaeth – Polisi	Medi 2010	Wedi diweddu'r Strategaeth Gyfathrebu yn dilyn trafodaethau gyda'r Tîm Rheoli ar 26/11/10 ac fe'i trafodwyd ymhellach gan y TRh ar 28/01/11. Cafodd y Strategaeth ei hystyried a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 15/02/11.	Mae cynllun gwaith yn cael ei yrru yn ei flaen mewn cydweithrediad â'r Comisiynydd perthnasol.
<b>Darparu'r rhaglen datblygu aelodau. Byddwn yn canolbwyntio yma'n bennaf ar:</b>				
Rolau a chyfrifoldebau aelodau	Cyfarwyddwr y Gwasanaetha u Cyfreithiol a Phwyllgorau	Wedi'i gwblhau	Bellach wedi'u sefydlu yng ngwaith y Gweithgor Datblygu Aelodau/Pwyllgor Safonau a Chynllun Datblygu Aelodau newydd wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor llawn ar 8/2/2011.	
Gloywi rôl y Pwyllgor Safonau	Cyfarwyddwr y Gwasanaetha u Cyfreithiol a Phwyllgorau	Wedi'i gwblhau	Bellach wedi'i sefydlu a'r Rhaglen Waith ar gyfer 2011-12 wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor ar 8/3/2011.	
Rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini	Cyfarwyddwr y Gwasanaetha u Cyfreithiol a Phwyllgorau	Wedi'i gwblhau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaglenni gwaith sy'n 'edrych ymlaen' yn eu lle ar gyfer Mai 2011 hyd 2012.</li> <li>Proses bellach wedi'i sefydlu.</li> </ul>	
Rôl y Pwyllgor Archwilio	Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid)	Parhaus	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaglen hyfforddi wedi'i llunio a'i darparu ar gyfer y Pwyllgor Archwilio.</li> <li>Hunanasesiad wedi'i ddiweddu a'i fabwysiadu gan y Pwyllgor Archwilio - yn dangos gwelliant ar y flwyddyn flaenorol.</li> </ul>	

<b>Gwella enw da:</b>				
Gwella trefniadau Ilywodraethu o ran y Pwyllgor Cynllunio	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau / Pennaeth Gwasanaeth – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	I'w gwblhau 12 Mai 2011	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Wedi mabwysiadu gweithdrefnau newydd ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio.</li> <li>• Argymhellion yr Arolwg Llywodraethu Corfforaethol (ALIC) yng Nghynllun Gwella'r Gwasanaeth Cynllunio.</li> <li>• Cyfarfodydd monitro'r Cynllun Gwella ar 7.10.10 a 24.1.11.</li> <li>• Ymgynghori ar Reolau Gweithdrefn diwygiedig ar gyfer Materion Cynllunio wedi'i gwblhau.</li> <li>• I'w ystyried gan y Cyngor llawn ar 12 Mai 2011.</li> <li>• Bydd angen cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.</li> <li>• Cyfarfodydd monitro pellach wedi'u trefnu ar gyfer 21.6.11.</li> </ul>	
Rheolaeth cwynion	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau	Parhaus	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Model Newydd o Bolisi wedi'i gymeradwyo gan LICC. Disgwylwyd llythyr, Arweiniad a'r Fersiwn Terfynol o'r Model Newydd o Bolisi ddiweddedd Ionawr 2011. Bydd yr arweiniad yn nodi'r model ar gyfer delio â chwynion.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni chlywyd dim gan LICC mewn perthynas â'r Model Newydd o Bolisi ar ddiweddedd y flwyddyn ariannol.</li> <li>• Mae'r Polisi presennol wedi'i</li> </ul>

				<p>adolygu gan PwC.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim newidiadau mawr wedi'u cynllunio i'r Polisi presennol hyd nes y derbynir cyfeiriad clir gan LICC o ran y Model Newydd o Bolisi.</li> <li>• Mae'r Model o Bolisi wedi'i "gymeradwyo" i bob Gwasanaeth Cyhoeddus ond nid oes unrhyw "gefnogaeth Gweinidogol ffurfiol" hyd yma.</li> <li>• Adolygwyd y Polisi presennol gan PwC yn Chwefror/Mawrth 2011 ond ni dderbyniwyd yr adroddiad eto.</li> <li>• Gwaith i ddechrau bellach i edrych ar fabwysiadu'r Polisi Newydd a hefyd i edrych ar ddefnyddio Holiadur Boddhad Cwsmeriaid safonol ar y cyd ag awdurdodau eraill Gogledd Cymru.</li> </ul>
--	--	--	--	---

Blaenoriaeth Strategol 2 – Diogelu a Datblygu Economi'r Ynys				
Ein blaenoriaethau gwella 2010/11 – Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud.	Cyfrifoldeb Arweiniol	Amserlen neu Garreg Filltir	Yr hyn a wnaethom Hyd at Fawrth 2011	Sylwadau Eglurhaol Ychwanegol
<b>Datblygu, cefnogi a gweithredu'r cysyniad o Ynys Ynni, adfywio, sgiliau'r farchnad lafur a thwristiaeth</b>				
<b>Datblygu a darparu'r rhaglen Ynys Ynni er mwyn gwneud y mwyaf o'r potensial am fuddsoddiadau at i mewn, creu swyddi a datblygu sgiliau.</b>	Pennaeth Gwasanaeth – Datblygu Economaidd	Parhaus	<p>Wedi sefydlu a darparu adnoddau ar gyfer tîm craidd y RhYY;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Lansiwyd y RhYY yn swyddogol gan y Dirprwy Brif Weinidog;</li> <li>- Wedi ffurfioli trefniadau cydweithredol a llywodraethu gyda rhanddeiliaid allweddol i wneud y gorau o'r buddion sy'n gysylltiedig â'r safle niwclear newydd posibl yn yr Wylfa;</li> <li>- Wedi ffurfio a diogelu cefnogaeth wleidyddol ar gyfer Datganiad Sefyllfa CSYM ar lety i weithwyr;</li> <li>- Wedi diogelu tua £160k o arian Cyn Cytundeb Perfformiad Cynllunio; 2010</li> </ul>	
<b>Defnyddio ffrydiau ariannu allanol</b>	Pennaeth Gwasanaeth – Datblygu	Parhaus	Wedi cefnogi datblygiad 2 broiect sydd wedi diogelu £4.9M o arian Cydgyfeiriant yr UE;	

<b>allweddol er mwyn cefnogi prosiectau adfywio.</b>	Economaidd		<p>Wedi cwblhau gwelliannau mewn 5 lleoliad fel rhan o brosiect 'Datblygu'r Amgylchedd Arfordirol' a ariannir gan arian Cydgyfeiriant;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Wedi diogelu'n llwyddiannus tua £3.1M o arian Cynllun Busnes 2 y CDG;</li> <li>- Parhau i ddarparu'r Rhaglen Datblygu Gwledig £4.25M (Cynllun Busnes 1);</li> <li>- Wedi cynorthwyo a chefnogi Menter Môn i ddiogelu £300k o'r Awdurdod Datgomisiyny Niwclear i ddarparu prosiectau economaidd-gymdeithasol; Wedi darparu cymorth parhaus i bartneriaid mewnlol ac allanol ddatblygu cynigion ar gyfer prosiectau.</li> </ul>	
<b>Datblygu a hyrwyddo cyfleoedd twristiaeth.</b>	Pennaeth Gwasanaeth - Datblygu Economaidd / Pennaeth Gwasanaeth – Dysgu Gydol Oes a Gwybodaeth	Parhaus	<p>Wedi gwneud cynydd o 6% yng ngwerth cynyrch Twristiaeth yr Ynys;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Wedi cefnogi 12 o ddigwyddiadau lleol trwy gynllun grantiau Digwyddiadau Twristiaeth CSYM;</li> <li>- Wedi cydlynur presenoldeb corfforaethol llwyddiannus yn Sioe</li> </ul>	<p>Dyma ail flwyddyn lawn twf arwyddocaol yn yr ymwelwyr blynnyddol i Oriel Ynys Môn sy'n cadarnhau ymhellach fod Oriel Ynys Môn yn atyniad lleol a</p>

			<p>Môn (ac wedi ennill y wobr am y babell orau yn y sioe);</p> <p>Wedi croesawu 11 o Longau Mordeithio i Borthladd Ynys Môn gan gynhyrchu dros £500k o wariant yn yr economi lleol;</p> <p>Wedi llwyddo i fynychu digwyddiadau'r Fasnach Fôr ryngwladol i farchnata Porthladd Ynys Môn ymhlið Gweithredwyr Mordeithiau allweddol;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Wedi manteisio ar y cyfle i gynyddu proffil Cenedlaethol a Rhynghladol cadarnhaol o'r ynys o ganlyniad i baratoadau ar gyfer a llwyddiant y Briodas Frenhinol.</li> </ul>	<p>rhanbarthol pwysig i ymwelwyr.</p> <p><b>Cynnydd o 10%.</b></p> <p><b>Safleoedd Treftadaeth</b></p> <p><b>Tymhorol: Ffigyrâu Ymwelwyr</b> (Ebrill – Medi 2010, gan gynnwys ymwelliadau addysgol) : <b>58,250</b> - + <b>6.6%</b> ar 2009 - 2010 (54,650)</p> <p><b>Oriel Ynys Môn:</b></p> <p><b>2010 – 2011:</b> ffigyrâu ymwelwyr ar gyfer y flwyddyn lawn: <b>91,561</b></p> <p>[ 2009/10 (83,219)]</p>
<b>Gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd i ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol.</b>	Pennaeth Gwasanaeth – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	Gorffennaf 2010 – 2016	Cytundeb i sefydlu Cydbwyllgor wedi'i arwyddo gan y Cyngor Sir ar 9.12.10. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Cydbwyllgor Polisi Cynllunio ar 4.3.11	Yr Uned Cynllunio Polisi ar y Cyd yn weithredol o 1.5.11

<b>Blaenoriaeth Strategol 3 – Adeiladu a chefnogi cymunedau cynaliadwy</b>				
<b>Ein blaenoriaethau gwella 2010/11 – Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud.</b>	<b>Cyfrifoldeb Arweiniol</b>	<b>Amserlen neu Garreg Filltir</b>	<b>Yr hyn a wnaethom Hyd at Fawrth 2011</b>	<b>Sylwadau Eglurhaol Ychwanegol</b>
<b>Cydweithio i gwrdd ag anghenion tai'r Ynys trwy:</b>				
<b>Parhau i wella ansawdd stoc dai'r Cyngor er mwyn cwrdd â gofynion Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).</b>	Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) Dros Dro	Parhaus tan 2012.	Mae'r cynllun yn barhaus, yn mynd yn ei flaen un unol â'n Cynllun Busnes. Mae Blwyddyn 3 yn gyflawn ac yn cyd-fynd â'r targed yn ôl y rhaglen gwariant cyfalaaf cymeradwy.	
<b>Darparu'r rhaglen tai fforddiadwy gyda sefydliadau sy'n bartneriaid, gan gynnwys datblygu Strategaeth Cartrefi Gweigion</b>	Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) Dros Dro	Parhaus.	<p>Strategaeth Cartrefi Gweigion wedi'i datblygu a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith am gymeradwyaeth. Cafwyd cymeradwyaeth yn Hydref 2010.</p> <p>Wedi datblygu Cynllun Gweithredu Cartrefi Gweigion 2 flynedd.</p> <p>Rhaglen Tai Fforddiadwy: Fframwaith Cyfranogi Tai Fforddiadwy wedi'i gryfhau i hyrwyddo gwell dealltwriaeth, ymrwymiad ac ymroddiad gan randdeiliaid er mwyn canfod a diwallu anghenion preswylwyr o ran</p>	<p>Cyfanswm o 69 o dai fforddiadwy wedi'u cwblhau wedi eu hariannu gydag arian Ychwanegol Cymdeithasol a ddiogelwyd trwy'r fenter SCIF (y Rhaglen Buddsoddi Cyfalaaf Strategol) a hwylusodd ddatblygiad newydd o 16 o gartrefi.</p> <p>Cynllun Achub Morgeisi wedi cynorthwyo 2 deulu.</p> <p>17 o dai fforddiadwy wedi'u</p>

			<p>tai fforddiadwy ac i hyrwyddo ymagwedd gydgysylltiedig er mwyn cyflawni targedau a gytunwyd a chanfod anghenion a blaenorriaethau i'r dyfodol.</p> <p>Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig - y rhaglen Grant Tai Cymdeithasol a gynnuniwyd wedi'i chyflawni yn ôl y targed gyda swm ychwanegol o £900k wedi'i glustnodi o arian llithriant cenedlaethol gan Lywodraeth Cylliad Cymru.</p> <p>Wedi gwneud cynnydd o ran canfod a chael mynediad i fathau arloesol o gyllid, yn hinsawdd gostyngiad o 30% mewn GTC yn 2011/2012, gan gynnwys gyrru ymlaen cyflwyno 'cyfleuster benthyciad pontio' i gynorthwyo hunan-adeiladwyr.</p>	<p>datblygu na chawsant eu hariannu gan GTC.</p> <p>Grant Tai</p> <p>Gweithio gydag un LCC i gyflwyno peilot Rhent Canolradd newydd yn ardal Amlwch – 6 chartref newydd [amcangyfrifir cwblhau'r cynllun yn Chwefror 2012].</p> <p>Dyraniad Cymorth Prynus LICC o £800,000.00 wedi'i wario'n llawn ac wedi cynorthwyo 16 o aelwydydd.</p> <p>4 Arolwg Anghenion Tai llawn wedi'u cwblhau i ganfod math yr anghenion tai yn y cymunedau ynghyd â gwybodaeth am fforddiadwyedd.</p>
<b>Parhau i ganolbwytio ar ddarparu gwasanaethau digartrefedd</b>	Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau	Parhaus	Cyflwynwyd Hyfforddiant Staff ar ddeddfwriaeth ddiweddar ac ar ddigartrefedd ymhliith pobl ifanc [rhai 16/17 oed] mewn perthynas â Dyfarniad Southwark.	Er gwaethaf y pwysau cynyddol ar Wasanaeth Digartrefedd y Cyngor, bu modd i ni gynnal ei darged o atal Digartrefedd mewn 72% o achosion yn ystod

<b>oherwydd yr ansicrwydd o ran beth fydd y galw.</b>	Cymdeithasol) Dros Dro		<p>Mae'r Uned Digartrefedd yn parhau i roi pwyslais ar atal.</p> <p>Manteisiwyd ar y defnydd o'r gronfa Atal Digartrefedd ac mae'r Gwasanaethau Tai wedi cyflwyno rhestrau ad-dalu bondiau fforddiadwy.</p> <p>Mae lleihau'r graddau y mae digartrefedd yn cael ei dderbyn yn dystiolaeth o ymyriadau ataliol llwyddiannus.</p> <p>Mae'n anochel y bydd Diwygio Budd-daliadau Lles yn arwain i gynnydd yn nifer yr aelwydydd sy'n cyflwyno eu hunain fel rhai 'digartref' i'r Gwasanaethau Tai.</p> <p>Yn ystyried dulliau newydd o weithio ar hyn o bryd, sy'n cynnwys cais llwyddiannus am arian gan Lywodraeth Cymru tuag at swyddog cefnogi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a thenantiaid, a mwy o bwyslais ar gynnig opsiynau tai eraill.</p>	<p>y flwyddyn, yn erbyn targed o 65%.</p> <p>Mae nifer y teuluoedd a leolir mewn gwely a brecwast wedi'i leihau.</p> <p>Yn rhoi mwy o sylw i gynnig cyngor ehangach ar opsiynau o ran tai.</p>
<b>Canolbwyntio ar wasanaethau effeithiol ac effeithlon i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc</b>				
<b>Adolygu strwythur y</b>	Cyfarwyddwr Corfforaethol	Cynllun Partneriaeth	Mae'r Bartneriaeth ar hyn o bryd yn	

<p><b>Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Datblygu rhaglenni gwaith sy'n canolbwyntio mwy ar dodi plant a sgiliau allweddol a chynhyrchu Cynllun Partneriaeth diwygiedig ar gyfer 2011-14.</b></p>	<p>(Addysg a Hamdden)</p>	<p>dywigiedig i'w gyflwyno i LICC yn Hydref 2010.</p>	<p>paratoi ar gyfer arolwg nesaf Estyn. Wrthi'n ymgynghori ynghylch y Cynllun Plant newydd.  Mae'r grant CYMORTH/Teuluoedd yn Gyntaf (2011/12) wedi'i ddosbarthu a'r dosbarthiad wedi'i gymeradwyo gan y Bartneriaeth.  Yn ystod Ch4, gwnaeth Cynnal gyfraniad sylweddol i'r paratoadau ar gyfer arolwg Estyn. Erbyn hyn, ceir problemau difrifol o ran capaciti o fewn y Bartneriaeth: o ganlyniad, mae'r Bartneriaeth yn ystyried penodi 'Swyddog SA'. Rhaid cydnabod fod methu profi y gwnaed cynnydd boddhaol gan y Bartneriaeth (gan arolwg Estyn o 27-28 Mehefin) yn risg i'r Bartneriaeth.  Cwblhawyd yr ymgynghori yn Ch4 a chynlluniwyd i'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc (2011-2014) gael ei fabwysiadu gan y Bwrdd Comisiynwyr (26.04.11).</p>	<p>Cwblhawyd y paratoadau ar gyfer Gwariant 'Teuluoedd yn Gyntaf'</p>
--	-------------------------------	---	---	---

			(2011/12) yn Ch4.	
<b>Datblygu strategaeth i gwrdd â gofynion menter Ysgolion 21 Ganrif y Cynulliad, a fydd yn cynnwys y rhaglen rhesymoli ysgolion.</b>	Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden)	Cyflwyno'r strategaeth i LICC yn Hydref 2010.	<p>Fersiwn Terfynol y Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP) wedi'i gyflwyno i LICC cyn 10/12/10, ac felly'n cyflawni gofynion LICC.</p> <p>Disgwylir 'cyhoeddiad' y Gweinidog Addysg yn ystod Ch1 (2011/12).</p> <p>Cefnogaeth ychwanegol ar gael i bob awdurdod gan yr Uned Ysgolion 21 Ganrif.</p> <p>Bwriedir cyflwyno adroddiad i'r Comisiynwyr yng Ngorffennaf 2011</p>	
<b>Canolbwyntio ar gyfrifoldebau Rhiant Corfforaethol y Cyngor a threfniadau diogelu plant</b>	Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden / Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) Dros Dro	Parhaus	<p>Cyflwynwyd adroddiad diweddar u cynnydd ar drefniadau diogelu i'r Pwyllgor Sgriftini ar 28/01/11. Mae rhaglen wella'r Gwasanaeth Plant yn parhau. Nodwyd meysydd gwaith pellach o'r Trefniadau Arolygu Trefniadau ar gyfer Asesiadau a rheoli gofal sydd angen eu harchwilio a gweithredu arnynt.</p> <p>Wedi ail-sefydlu is-grwpiau, a dechreuwyd gwaith ar Gynllun</p>	

			Busnes 2011/12.	
<b>Parhau i ganolbwytio ar addysg gydol oes er mwyn cerdd ag anghenion trigolion yr ynys</b>	Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden)	Parhaus	<p>Mae Partneriaeth Dysgu Gydol Oes Ynys Môn a Gwynedd a Grŵp Gweithredu Addysg Gymunedol Ynys Môn yn gweithredu cynllun ôl-arolwg trwy raglen waith a chanddi bwyntiau gweithredu manwl.</p> <p>Mae adnoddau Addysg Gymunedol (TGCh) wedi cael eu diwygio a'u hymestyn yn Llyfrgelloedd Llangefni a Phorthaethwy.</p> <p>Cynlluniwyd Wythnos Addysg Oedolion (Mai 16 – 23, 2011) mewn partneriaeth â Gwynedd.</p>	
<b>Parhau i ganolbwytio ar wella sgiliau craidd yn unol â Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru</b>	Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden)	Parhaus	Cwblhawyd cais Sgiliau Sylfaenol yn Nhachwedd 2011, a chafwyd cadarnhad o lefelau ariannu.	

<b>Adolygu'r rhesymeg o ran darparu'n uniongyrchol ystod o weithgareddau a mwynderau a thwristiaeth, gan gynnwys safleoedd treftadaeth, parciau, gwasanaethau hamdden, cefn gwlad a morwrol</b>	Pennaeth Gwasanaeth – Dysgu Gydol Oes a Gwybodaeth	Yn unol â chynllun y prosiect.	(1) Cyflwynodd y Grŵp Tasg a Gorffen Treftadaeth adroddiad i'r Pwyllgor Sgriftini (1/2/2011) a'r Pwyllgor Gwaith (15/2/2011) ar gynigion a fydd yn creu toriad o 30% yng nghostau rhedeg net y safleoedd.  (2) Cyflwynwyd adroddiad 'Cynllun Rheoli Cychfan' i'r Pwyllgor Gwaith (15/2/2011). Gwaith yn parhau o dan arweinyddiaeth yr Uned Datblygu Economaidd.	Gwylfan Moelfre: trefniadau prydlesu wedi'u sefydlu gyda'r RNLI- arbedion refeniw o £12,000.  Ynys Lawd: trefniadau trwyddedu wedi'u hail-drafod gyda Trinity House/trefniadau rheoli'r safle gyda'r RSPB (tocynnau) - targed ar gyfer arbedion refeniw o £10,000.
<b>Parhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog yn y Cyngor a hyrwyddo'r iaith</b> Paratoi strategaeth sgiliau'r gweithluar gyfer yr awdurdod	Pennaeth Gwasanaeth – Polisi	Hydref 2010	Strategaeth wedi'i chwblhau a diwygiad pellach wedi'i ymgorffori yn dilyn ymgynghori mewnol a sylwadau gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.	Mae hyn yn ffurio rhan o gynllun gwaith Grŵp yr Iaith Gymraeg.
Cynnal adolygiad o Gynllun Iaith	Pennaeth Gwasanaeth	Rhagfyr 2010	Amserlen ddiwygiedig wedi'i chytuno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg (ar	Mae hyn yn cael ei weithredu yn

Gymraeg y Cyngor	– Polisi		gyfer 2 <sup>nd</sup> Chwarter 2011)	Ch2/3 o 2011/12.
Creu Fforwm laith	Pennaeth Gwasanaeth – Polisi	Mawrth 2011	Cylch Gorchwyl a chefnogaeth weinyddol yn eu lle. Aelodaeth danystyriaeth.	Cyfarfod cyntaf i'w yrru ymlaen yn Ch3 2011-12.
<b>Gwneud defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd unigryw a naturiol</b>				
<b>Parhau i weithredu rhaglen y Cyngor i leihau gwastraff, mentrau ailgylchu a threfniadau ar y cyd o ran cael gwared ar wastraff</b>	Cyfarwyddwr Corfforaethol (Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol)	Parhaus.	<p>Ymestyn y gwasanaeth casglu bwyd i gynnwys yr ynys i gyd yn Hydref 2010.</p> <p>Un o'r ychydig awdurdodau gyda gwasanaeth cyson a draws y sir.</p>	<p>Y gyfradd ailgylchu wedi cynyddu o 49% yn 09/10 i 54% yn 10/11, yn mynd y tu hwnt i'r Targed Statudol o 52% a fynnwyd erbyn 2012/13.</p> <p>Yr ailgylchwr gorau ond un yng Nghymru unwaith eto, am yr 2<sup>nd</sup> flwyddyn yn olynol (i'w gadarnhau'n swyddogol)</p>
